# Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid Cymru

31 Mawrth 2025

Wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Gofal Llygaid Cymru 28 Ebrill 2025

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol .... 3
1.0 Cyflwyniad .... 4
1.1 Ein poblogaeth .... 4
1.2 Iechyd Llygaid .... 5
1.3 GIG Cymru .... 7
1.4 WGOS .... 8
1.5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru .... 9
2.0 Byrddau Iechyd .... 11
2.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan .... 11
2.1.1 Trosolwg o Went .... 11
2.1.2 Gwasanaethau a Gomisiynir .... 26
2.1.3 Cyflyrau clinigol gan gynnwys nifer yr achosion .... 32
2.1.4 Ffactorau risg .... 41
2.1.5 Contractwyr a gweithgarwch .... 46
2.1.6 Darpariaeth Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth .... 53
2.1.6 Crynodeb ac Argymhellion .... 91

## Crynodeb Gweithredol

Er mwyn cynorthwyo i ddiwallu anghenion gofal llygaid cymunedau, yn 2023, gosododd Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i gynnal Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid bob tair blynedd er mwyn canfod anghenion y cyhoedd o ran darpariaeth gofal llygaid ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd.

Bydd lefelau uwch o wasanaethau clinigol a nodir gan yr asesiadau o anghenion gofal llygaid lleol yn cael eu darparu ar lefel Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCN) i atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon. Gyda'i gilydd, bydd yr asesiad o anghenion ynghyd â chyflawni ar sail ôl troed Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth yn sicrhau y bydd anghenion y boblogaeth leol yn cael eu hystyried yn llawn ac y cyflawnir yn unol â hynny.

Mae'r Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn wedi'i baratoi yn unol â Chyfarwyddyd Deddfwriaethol ac mae'n ymwneud â darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) ar lefelau 1-5 a ddarperir o dan drefniadau a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol ac mae'n cynnwys:

(a) asesiad a chrynodeb o ddarpariaeth WGOS 1–5;

(b) asesiad a chrynodeb o'r galw am WGOS 1–5;

(c) cynigion ar gyfer gwasanaethau offthalmig pellach a allai fod yn angenrheidiol i ateb y galw am y gwasanaethau hynny;

(d) amlinelliad o nifer achosion ac effaith colli golwg yn ardaloedd pob Bwrdd Iechyd Lleol, gan gynnwys yr achosiaeth, ffactorau risg, demograffeg ac iechyd y cyhoedd, a chanlyniadau eraill colli golwg;

(e) dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr holl ffynonellau data;

(f) map sy'n nodi'r safleoedd lle darperir unrhyw un neu bob un o wasanaethau WGOS 1–5 yn ardaloedd pob Bwrdd Iechyd Lleol.

Wrth baratoi'r Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn, mae pob Bwrdd Iechyd Lleol

(a) wedi ystyried, i'r graddau y bo'n ymarferol gwneud hynny, y materion canlynol—

(i) demograffeg ei ardal,

(ii) unrhyw anghenion gwahanol sydd gan wahanol leoliadau yn ei ardal,

(iii) y gwasanaethau offthalmig a ddarperir yn unol â threfniadau ag unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol cyfagos sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau offthalmig yn ei ardal,

(iv) unrhyw wasanaethau eraill y GIG a ddarperir yn ei ardal neu oddi allan iddi (nad ydynt wedi'u cynnwys o dan is-baragraff (iii)) sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau offthalmig yn ei ardal,

(v) unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol naill ai yn unol â Chyfarwyddiadau Deddfwriaethol neu Reoliadau 2023, ac

(b) wedi ystyried yr anghenion tebygol yn y dyfodol o ran y newidiadau i nifer y bobl yn ei ardal y bydd arnynt angen unrhyw un neu bob un o wasanaethau WGOS 1–5.

## 1.0 Cyflwyniad

### 1.1 Ein poblogaeth

Yng Nghymru, sy'n cwmpasu 20,779 km²[22] ac sydd â phoblogaeth o tua 2.98 miliwn, ceir saith Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) amrywiol. Mae ffiniau Byrddau Iechyd Lleol yn disgrifio ardaloedd y mae eu maint daearyddol yn amrywio o lai na 500 km2 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Lleol Caerdydd a'r Fro i fwy na 6,000 km2 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae poblogaethau preswyl y Byrddau Iechyd Lleol yn amrywio o 132,000 yn achos Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i 678,500 yn achos Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ardaloedd deheuol a dwyreiniol mwy trefol ac ôl-ddiwydiannol Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe yn cyfrif am 60% o boblogaeth Cymru ond dim ond 17% o arwynebedd tir Cymru. Mewn cyferbyniad, ardaloedd mwy gwledig yw rhai Byrddau Iechyd Prifysgol Powys, Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn bennaf.

Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Bobl Ddall (RNIB) yn amcangyfrif y bydd bron i un o bob pump o bobl yn colli eu golwg yn barhaol yn ystod eu hoes, ac un o bob tri yn profi rhyw fath o golli golwg yn ystod eu hoes. Yn 2016-2017, digwyddodd 90% o achosion o golli golwg mewn pobl 65 oed a hŷn. Fodd bynnag, yn yr un flwyddyn, roedd 25 o bobl rhwng 15 a 64 oed yn cael eu heffeithio gan golli golwg bob dydd. Amcangyfrifir bod dwy filiwn o bobl yn y DU yn byw gyda cholled golwg sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol. (RNIB, 2016)

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 3.5% o'r boblogaeth yn byw gyda cholled golwg sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol. Amcangyfrifir bod 111,000 yng Nghymru wedi'u nodi fel rhai sydd wedi colli eu golwg a disgwylir i hyn gynyddu 35% i 146,000 erbyn 2030 (RNIB 2021, Pezzullo ac eraill 2018). Mae colli golwg yn effeithio'n ddwys ar lesiant unigolyn. Ceir cysylltiad agos rhwng colli golwg ac iechyd cyffredinol, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r berthynas hon a cheisio ffyrdd o'i gwella.

Mae oedran yn ffactor risg ar gyfer clefyd y llygaid. O blith y boblogaeth 65-74 oed, mae 23,400 o bobl yn byw gyda cholled golwg yng Nghymru. Mae hyn yn cynyddu i 34,800 ymhlith y rhai sydd dros 85 oed (RNIB 2021, Pezzullo ac eraill 2018 ac Access Economics Pty Limited ar gyfer RNIB 2009). Rhagwelir hefyd y bydd nifer y bobl hŷn yn y DU (ac felly yng Nghymru) yn cynyddu (ONS 2019 ONS 2020 a StatsCymru 2020). Mae poblogaeth hŷn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau gofal iechyd, yn enwedig gofal llygaid, oherwydd daw clefyd y llygaid yn fwy cyffredin wrth i bobl heneiddio (RNIB 2021, Pezzullo ac eraill 2018 ac Access Economics Pty Limited ar gyfer RNIB 2009).

Dyma brif achosion colli golwg yn y DU: (RNIB 2021, Pezullo, L 2018 ac Access Economics Pty Limited ar gyfer RNIB 2009).

- Cyfeiliornad plygiant heb ei gywiro – 39%
- Dirywiad Maciwlaidd Cysylltiedig ag Oedran (AMD) - 23%

- Cataract – 19%
- Glawcoma – 7%
- Clefyd llygaid diabetig – 5%

Yn ôl RNIB (2018), gellir osgoi hanner yr achosion o golli golwg. Gall lensys presgripsiwn cywirol wella nam ar y golwg oherwydd cyfeiliornad plygiant. Gall pobl sy'n byw gyda chataractau gael llawdriniaeth i dynnu cataractau ac mae datblygiadau wedi digwydd o ran triniaethau ar gyfer cyflyrau fel AMD Gwlyb ac mae ymchwil yn cael ei chynnal yn gyson ynghylch atal pob clefyd llygaid. Mae mynediad gwell at ofal llygaid yn allweddol i atal colli golwg. Yng Nghymru, mae nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru â nam ar eu golwg yn lleihau, ac mae hyn yn debygol o ddeillio o driniaethau gwell a mynediad gwell at ofal llygaid. Fodd bynnag, mae angen cyflawni llawer iawn rhagor (Bourne RRA ac eraill 2018 a StatsCymru 2021).

Mae'r cynnydd rhagamcanol yn nifer y bobl â chlefyd y llygaid yn cael ei waethygu gan broblemau capasiti mewn unedau offthalmoleg. Yn ychwanegol, mae gwelliannau o ran triniaethau ar gyfer cyflyrau llygaid megis Dirywiad Maciwlaidd Gwlyb (AMD Gwlyb) a chanllawiau gwell wedi ysgogi mwy o alw am apwyntiadau offthalmoleg. Yn anffodus, mae'r rhestrau aros wedi cynyddu ymhellach oherwydd pandemig COVID-19. Yn anffodus, gall hyn achosi niwed anadferadwy i gleifion yn sgil cyflyrau llygaid yn gwaethygu, a gall y niwed hwnnw effeithio ar bob rhan o'u bywydau. Mae angen ffyrdd gwell o weithio i gynyddu capasiti a gwella gofal ar gyfer cleifion (Boyce, 2014, Foot a MacEwen 2017, Ting ac eraill 2020, Ting ac eraill 2021). Diben diwygio contractau optometreg yw ceisio gweithredu cydweithio gwell a darparu gofal llygaid gwell. Mae optometryddion yn gwella eu sgiliau, ac wrth ddiwygio contractau, ceisir defnyddio'r sgiliau hanfodol hyn er budd pobl Cymru. Mae llwybrau gofal newydd wedi cael eu sefydlu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, a'u nod yw lleihau nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau mewn ysbytai a rhyddhau capasiti ym maes gofal eilaidd a bydd y rhain yn cael eu sefydlu ledled Cymru (Llywodraeth Cymru 2021, Gwasanaethau gofal llygaid Cymru a Pyott 2021). Nod yr Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn yw darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio ar gyfer y gwasanaethau hyn a'u hehangu ledled Cymru. Bydd hyn yn adeiladu ar waith blaenorol ynghylch y Gweithlu Optometreg (Schumm, S 2021) a'r Cynllun Rheoli Cleifion (Morgan, Tim 2021).

## 1.2 Iechyd y Llygaid

Mae llawer o ffactorau risg clefydau systemig yr un fath â ffactorau risg clefyd y llygaid. Gellir mynd i'r afael â ffactorau risg y gellir eu haddasu i helpu i atal colli golwg rhag dechrau neu arafu'r gwaethygu. Gellir targedu ffactorau risg na ellir eu haddasu ar gyfer sgrinio er mwyn eu hadnabod yn gynnar a chael mynediad at driniaeth.

Ceir llawer o oblygiadau negyddol yn sgil colli golwg. Ceir cysylltiad agos rhwng iechyd cyffredinol ac iechyd llygaid, a bydd ymdrechion i wella iechyd llygaid yn dylanwadu'n gadarnhaol ar les yn gyffredinol.

Amcangyfrifir bod 111,000 o bobl yn byw gyda cholled golwg a 12,137 wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall yng Nghymru. Cataract, glawcoma, AMD, retinopathi diabetig a

chyfeiliornad plygiant yw prif achosion nam ar y golwg yn y DU. Mae gan 1 o bob 3 o bobl dros 75 oed gataractau sy'n achosi nam ar y golwg.

Amcangyfrifir bod 36,100 o bobl yng Nghymru yn byw gyda glawcoma. Mae gan tua 73% o bobl dros 75 oed ryw fath o AMD. O blith tua 210,000 o oedolion diabetig yng Nghymru, mae gan 62,800 ryw fath o retinopathi diabetig ac mae gan 5,780 retinopathi diabetig difrifol. Mae gan tua thraean o blant ac oedolion dan 20 oed gyfeiliorna plygiant. Yn sgil ymyrraeth gynnar a rheolaeth briodol, gellir lleihau neu hyd yn oed atal colli golwg a achosir gan y cyflyrau hyn.

Rhagwelir y bydd nifer yr achosion o gataractau, AMD, glawcoma, unrhyw fath o retinopathi diabetig a cholli golwg yn cynyddu erbyn y flwyddyn 2040. Mae'n ymddangos y bydd nifer yr achosion o gyfeiliornad plygiant ymhlith plant dan 16 oed yn sefydlog tan 2040, ond nid yw'r cyfrifiadau hyn yn cynnwys cynnydd mewn myopia. Bydd angen cynyddu'r gwasanaethau a ddarperir a'r gweithlu i ddiwallu'r galw am ofal llygaid yn y dyfodol. Os nad ymdrechir i fynd i'r afael â'r lefel gynyddol a ragwelir o golli golwg, bydd llawer o bobl yn dioddef gan nam ar y golwg a bydd hynny'n peri mwy o straen i'r systemau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Rhagwelir y bydd cynnydd o 120,726 ym mhoblogaeth Cymru erbyn 2040. Bydd poblogaeth gynyddol yn golygu mwy o alw am wasanaethau gofal llygaid ac mae angen ystyried hyn wrth gynllunio ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'r data yn yr adran hon yn dangos tystiolaeth o boblogaeth sy'n heneiddio ac fe wnaiff hynny achosi baich mwy o ran clefydau'r llygaid. Mae hyn yn fwyaf nodedig yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ddemograffeg iau, a gallai hynny fod yn berthnasol gan gofio bod disgwyl i nifer yr achosion o fyopia gynyddu ymhlith grwpiau oedran iau.

Asiaid oedd yn ail ymhlith y grwpiau ethnig mwyaf yng Nghymru yn 2019, ac roedd y ganran fwyaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Fel ffactor risg ar gyfer rhai cyflyrau llygaid, yn ogystal â chyflyrau iechyd cyffredinol, mae casglu gwybodaeth am ethnigrwydd yn hanfodol at ddibenion cynllunio darpariaeth gofal llygaid a sicrhau bod grwpiau sydd mewn perygl yn manteisio ar wasanaethau gofal llygaid, yn enwedig ar y lefel leol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe sydd â'r gyfran uchaf o'r 20% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) mwyaf difreintiedig. Gall cefndiroedd economaidd-gymdeithasol ddylanwadu ar nifer yr achosion o glefyd y llygaid a mynediad at wasanaethau gofal llygaid.

Gall ffactorau risg clinigol fod yn rhagfynegydd o debygolrwydd cynyddol o glefyd y llygaid. Mae casglu gwybodaeth am ffactorau risg clinigol yn ysgogi'r drafodaeth ynghylch cyngor mewn perthynas ag ymddygiad a bydd yn helpu i benderfynu ar ddulliau priodol o reoli cleifion. Mae ysmygu yn ffactor risg sylweddol ar gyfer clefyd y llygaid yn ogystal â chyflyrau eraill. Dylai pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (gan gynnwys staff optometreg) gynnig

cyngor ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu er mwyn cynorthwyo i sicrhau gostyngiad yn y nifer o achosion o golli golwg.

Mae grwpiau agored i niwed, gan gynnwys y sawl sydd ag anabledd, mewn mwy o berygl o brofi nam ar y golwg:  Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd â'r ganran uchaf o bobl wedi'u cofrestru fel rhai sy'n byw gydag anabledd yn 2019.

### 1.3 GIG Cymru

GIG Cymru yw Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a ariennir ag arian cyhoeddus, ac mae'n darparu gofal iechyd i oddeutu tair miliwn o bobl sy'n byw yn y wlad.  Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r strategaeth Gofal Iechyd ac mae'r GIG yng Nghymru yn cyflawni'r strategaeth a'r gwasanaethau hynny drwy'r saith Bwrdd Iechyd Lleol, tair Ymddiriedolaeth y GIG a dau Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae gan y GIG egwyddor allweddol: dylai gofal iechyd da fod ar gael i bawb.

Mae prif ysgogwyr strategol GIG Cymru yn cynnwys:

- *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

  Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gwahodd cydweithio ar draws gwasanaethau a sectorau ac â'r unigolyn i wella llesiant a lleihau'r galw am wasanaethau (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2021).

  Mae diwygio contractau optometreg wedi ymgorffori cydweithio rhwng gwasanaethau a sectorau.  Mae Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi yn cydweithio'n agos â chleifion a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd i wella iechyd y llygaid ac iechyd cyffredinol, gan sicrhau y cynigir cyngor ataliol i wella lles a lleihau'r galw am ofal eilaidd.

- *Cymru Iachach*

  Mae'r polisi hwn yn annog dull mwy cyfannol o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cynorthwyo i sicrhau'r defnydd o wasanaethau cymunedol yn hytrach na gofal eilaidd lle bo'n briodol.  Mae'r nod pedwarplyg yn amlinellu'r defnydd o weithlu brwdfrydig, gwerth uwch y gofal sy'n cael ei ddarparu, iechyd a lles gwell y boblogaeth, ac ansawdd gwell gofal a mynediad cynyddol ato er mwyn cyflawni nodau 'Cymru Iachach' (Rhwydwaith Iechyd y Cyhoedd 2021 a Llywodraeth Cymru 2016, Llywodraeth Cymru 2021).

  Mae optometryddion yng nghanol y gymuned ac mewn sefyllfa dda i ddarparu dull cyfannol o ymdrin ag iechyd cleifion.   Drwy wella sgiliau'r gweithlu, gall Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi ddefnyddio eu sgiliau i sicrhau bod gofal yn digwydd yn nes at gartrefi cleifion a chyfeirio cleifion at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill pan fo angen hynny.  Mae Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) yn sicrhau bod pob rhyngweithiad o werth uchel a bydd yn helpu i wella lles yr unigolyn a darparu cyngor ataliol.

- Optometreg: Cyflwyno Cymru Iachach (Pwyllgor Optometreg Cymru 2021)

Mae'r papur hwn yn amlinellu sut y dylai optometreg ddylanwadu ar y newid sydd ei angen i gyflawni'r nodau a geir yn nogfen Cymru Iachach - trwy wella sgiliau'r gweithlu, gweithio mewn clystyrau a darparu gofal yn nes at gartrefi cleifion.  Felly, mae Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid yn briodol ac yn angenrheidiol i gyflawni'r nodau yn ymwneud â llygaid, i sicrhau bod meysydd yn cael eu blaenoriaethu ac i'n helpu i gynllunio at y dyfodol, gan sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu drwyddi draw.

- *Datblygu Clwstwr Carlam*

Bydd Datblygu Clwstwr Carlam yn gwella cynllunio integredig rhwng clystyrau, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.  Mae Datblygu Clwstwr Carlam yn sicrhau bod ystod ehangach o wasanaethau ar gael yn lleol ac y gellir llunio cynlluniau ar sail asesiadau o anghenion y boblogaeth leol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y clwstwr trwy gydweithio.  Mae optometryddion yn rhan o waith clystyrau drwy ymgysylltu mewn cydweithrediadau proffesiynol, gan sicrhau bod anghenion y boblogaeth leol yn cael eu diwallu.  Mae asesiadau o anghenion y boblogaeth leol yn hanfodol i gyflawni newidiadau sy'n sicrhau buddion gwirioneddol i'r gymuned leol (Hwb Datblygu ac Arloesi Gofal Sylfaenol a Chymunedol. 2022).

## 1.4 Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru

Sefydlwyd Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) ar 20 Hydref 2023, gan uno fframweithiau a dulliau llywodraethu a gwerthuso gwasanaethau ledled Cymru i ddarparu gofal yn nes at gartrefi cleifion a sicrhau na fydd pobl yn cael gwasanaethau llygaid mewn ysbytai oni bydd hynny'n ofynnol. Mae WGOS yn Wasanaeth haenog sy'n cynnwys y canlynol:

- WGOS 1: archwiliadau llygaid a chynllun rheoli cleifion.
- WGOS 2: yn cynnwys tri band:
  - Band 1 – Gofal llygaid acíwt a chyfeiriadau i gael archwiliad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
  - Band 2 - Archwiliadau pellach yn dilyn WGOS 1 i lywio neu atal cyfeiriad.
  - Band 3 - Archwiliadau dilynol wedi WGOS 2 Band 1 ac Asesiadau ar ôl Llawdriniaethau i dynnu Cataractau.
- WGOS 3:
  - Asesiadau ar gyfer y sawl sydd â golwg gwan a darparu cymhorthion golwg i bobl sydd â golwg gwan pan fo hynny'n briodol, yn ogystal â chynorthwyo cleifion yn gyfannol a darparu cymorth yn ymwneud ag adsefydlu.
  - Ardystio namau ar y golwg ar gyfer cleifion y mae Dirywiad Maciwlaidd Sych sy'n Gysylltiedig ag Oedran yn brif achos colli golwg iddynt.
- WGOS 4: mae archwiliadau ar gyfer cleifion a fyddai wedi cael eu cyfeirio at/neu eu rheoli gan Wasanaeth Llygaid Ysbyty yn flaenorol yn cael eu cynnal ym maes

gofal sylfaenol i sicrhau asesiadau manylach pellach fel rhan o lwybr mireinio neu fonitro cyfeiriadau cytunedig ar gyfer y cleifion canlynol:
    - y sawl sydd â chyflyrau meddygol y retina (neu'r sawl yr amheuir bod ganddynt y cyflyrau hynny)
    - y sawl sydd â glawcoma neu orbwysedd ocwlar (neu'r sawl yr amheuir bod ganddynt y cyflyrau hynny)
    - y sawl sydd mewn perygl o retinopathi yn sgil cymryd hydrocsiclorocwin neu glorocwin
- WGOS 5: archwiliadau ym maes gofal sylfaenol ar gyfer cyflyrau llygaid acíwt y dylid eu rheoli gan optometrydd rhagnodi annibynnol i leihau'r angen am gyfeiriadau at Wasanaethau Llygaid mewn Ysbytai.
- Talebau Optegol y GIG: cymorth ariannol ar gyfer darparu sbectol neu lensys cyffwrdd i gleifion mewn categorïau cymwys a bennir gan Lywodraeth Cymru.

### 1.5 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi'r ardaloedd bach hynny ble ceir y crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae amddifadedd yn golygu diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gallem ddisgwyl eu cael yn ein cymdeithas. Mae MAlLC yn rhestru pob ardal fach yng Nghymru o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig). Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a lunnir gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru. Mae ardaloedd bach yn ardaloedd daearyddol y Cyfrifiad o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs). [1]


Caiff y mynegai llawn ei ddiweddaru bob pedair neu bum mlynedd. Cyhoeddwyd y mynegai diweddaraf yn 2019. Mae nifer o ddangosyddion yn cyfrannu at MALlC. Diweddarir rhai o'r rhain yn flynyddol (pan fo'n bosibl), diweddarir rhai yn rheolaidd, a diweddarir rhai pan ddiweddarir MALlC yn gyffredinol yn unig, ac ni ddiweddarir rhai ohonynt nes bydd data'r cyfrifiad ar gael.

Mae ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried:

- Amddifadedd Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad at Wasanaethau
- Llety
- Diogelwch Cymunedau
- Amgylchedd Ffisegol

Mae'r maes iechyd yn mesur diffyg iechyd da. Dyma'r dangosyddion:

- Pobl sydd wedi cael diagnosis yn cadarnhau cyflwr cronig a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)
- Pobl sydd wedi cael diagnosis yn cadarnhau cyflwr iechyd meddwl a gofnodwyd gan feddyg teulu (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)
- Cyfradd yr Achosion o Ganser (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)
- Salwch Hirdymor Cyfyngol (wedi'i safoni'n anuniongyrchol yn ôl oedran a rhyw)
- Cyfradd Marwolaethau Cynamserol (marwolaethau pobl iau na 75 oed)
- Plant 4-5 oed sy'n ordew
- Pwysau Isel ar Adeg Geni, genedigaethau sengl (genedigaethau byw llai na 2.5kg)




Mae'r dangosyddion uchod wedi'u safoni yn ôl oedran a rhyw i addasu yn unol â nifer achosion disgwyliedig clefyd ymhlith y boblogaeth sylfaenol. Mae hyn yn caniatáu i'r mynegai nodi meysydd ble mae amddifadedd iechyd yn bodoli y tu hwnt i effaith oedran a rhyw.

Mae'r cysylltiad rhwng amddifadedd ac iechyd yn amlwg ledled Cymru, yn enwedig yng nghymunedau'r cymoedd ôl-ddiwydiannol yn Ne Cymru. Yma, mae canlyniadau iechyd gwaeth yn sylweddol waeth na rhai Cymru gyfan.

# 2.0 Byrddau Iechyd

## 2.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae'r Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn yn disgrifio anghenion y boblogaeth sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Pennir yr angen drwy ystyried cyffredinrwydd a nifer yr achosion o broblemau iechyd y llygaid, gan gynnwys ffactorau risg. Mae'r Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid yn adolygu'r lefel bresennol o wasanaethau sydd ar gael ac yn ystyried yr angen yn y dyfodol. Cyflwynir y wybodaeth ar lefel ôl troed Gwent, awdurdodau lleol a rhwydweithiau gofal cymdogaeth.

Mae'r data wedi'u cydgasglu o ddata a gynhyrchir yn genedlaethol gan gynnwys data Llywodraeth Cymru, y Cyfrifiad, Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol Pobl Ddall a'r Model Epidemiolegol Iechyd Llygaid Cenedlaethol. Defnyddir gwybodaeth am gontractio lleol gan gynnwys lefelau gweithgarwch ynghyd â phapurau academaidd.

Yn achos yr Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn, nid oedd cleifion na darparwyr yn rhan o'r broses, ond byddant yn cael eu hystyried ar gyfer fersiynau'r dyfodol o'r Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn.

### 2.1.1 Trosolwg o Went

#### 2.1.1.1 Cyflwyniad

Mae ôl troed Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cyd-fynd ag ardal ddaearyddol 'Gwent' Fwyaf, term a ddefnyddir i gyfleu ardaloedd y pum awdurdod lleol sef:

- Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Bwrdeistref Sirol Caerffili,
- Sir Fynwy,
- Dinas Casnewydd a
- Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Bydd yr enw Gwent yn cael ei ddefnyddio drwy gydol yr Asesiad o Anghenion Iechyd Llygaid hwn i gyfleu'r ardal a gwmpesir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Gwent yn ardal 1,533 cilomedr sgwâr ($km^2$), sef 7.2% o Gymru (21,225 $km^2$) ac mae'r boblogaeth yno yn 594,412[1], sy'n cyfateb i 18.8% o gyfanswm poblogaeth Cymru (3,164,404).

Mae ardal y Bwrdd Iechyd yn amrywiol a cheir canolfannau trefol a mannau gwledig, ynghyd â chymoedd mwyaf dwyreiniol De Cymru. Mae'r map isod yn dangos y dosbarthiad gwledig/trefol ar gyfer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ardal y Bwrdd Iechyd ac yn dangos y rhaniad cyffredinol rhwng mannau gwledig yn y Dwyrain a'r ardaloedd trefol yn y Gorllewin.

[1] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)

Mae Gwent yn Rhanbarth Marmot, sy'n golygu bod rhwydwaith o randdeiliaid lleol wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb trwy weithredu mewn ymateb i benderfynyddion cymdeithasol iechyd – yr amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n llywio ein hiechyd. Mae dod yn Rhanbarth Marmot yn dynodi bwriad ar y cyd i gydweithio i wella tegwch ledled Gwent, a gwella bywydau ein holl gymunedau yn sgil hynny, yn unol ag egwyddorion Marmot.


**Map 2.1.1 Awdurdodau lleol Gwent[2]**





**Map 2.1.2 – dosbarthiad gwledig trefol (2011) Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan[3]**

2 Map BIPAB o Went

3 Mapiau Iechyd Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru



Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100050829




***Awdurdodau lleol***

Mae **Blaenau Gwent** yn ardal gymharol fach (tua 109 km$^2$) ac mae ei phoblogaeth yn 67,356[4]. Diffinnir Blaenau Gwent yn ffisegol gan lethrau bryniau uchel sy'n rhannu'r tri phrif ddyffryn.

Er gwaethaf awyrgylch prysur a threfol ei threfi, mae Blaenau Gwent yn ardal wledig yn bennaf. Mae'n wynebu diweithdra uchel, ac mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn dibynnu ar fudd-daliadau.

**Map 2.1.3 – Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

[4] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)




Mae **Bwrdeistref Sirol Caerffili** yn cwmpasu tua 280 $km^2$ o ardal y Cymoedd yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae ei phoblogaeth yn 176,437[5]. Mae'r fwrdeistref sirol yn gymysgedd o gymunedau trefol a gwledig. Defnyddir tri chwarter o arwynebedd y fwrdeistref sirol at ddibenion amaethyddiaeth a choedwigaeth.

Mae gan dref Caerffili economi sy'n ehangu ac mae'n elwa o gysylltiadau cludiant da â Chaerdydd, ond ceir lefelau sylweddol o ddiweithdra ac iechyd gwael, yn enwedig yng ngogledd y fwrdeistref sirol.

**Map 2.1.4 – Bwrdeistref Sirol Caerffili**




Lleolir **Sir Fynwy** yn Ne-ddwyrain Cymru, ac mae ganddi leoliad strategol rhwng y prif ganolfannau yn Ne Cymru, De-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Mae arwynebedd y sir yn 880 $km^2$ fwy neu lai, ac amcangyfrifir bod ei phoblogaeth yn 94,572[6].

Yn gyffredinol, mae Sir Fynwy yn ardal ffyniannus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel i'w thrigolion, ond mae hyn yn cuddio rhai ardaloedd ble ceir amddifadedd.

**Map 2.1.5 – Sir Fynwy**

[5] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)
[6] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)




Mae **Dinas Casnewydd** yn ddinas amlddiwylliannol a hi yw trydedd ganolfan drefol fwyaf Cymru ac mae ei phoblogaeth yn 163,628[7]. Mae ei harwynebedd yn 217.7 km². Yr ardal hon sy'n ail o ran y nifer fwyaf o bobl o gymunedau ethnig lleiafrifol ymhlith holl siroedd Cymru (ar ôl Caerdydd) ac mae wedi parhau i gynyddu ers 2009 pan amcangyfrifwyd bod y ffigur yn 6.6% o'r boblogaeth.

**Map 2.1.6 – Dinas Casnewydd**




Mae arwynebedd bwrdeistref sirol **Torfaen** yn 126km² ac mae'n drydydd yn y rhestr o fwrdeistrefi lleiaf Cymru. Mae ei phoblogaeth yn 93,419[8] fwy neu lai. Torfaen yw'r mwyaf dwyreiniol o blith cymoedd diwydiannol De Cymru.

**Map 2.1.7 – Bwrdeistref Sirol Torfaen**

[7] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)
[8] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)




**Tabl 2.1.1 – Poblogaeth Gwent fesul awdurdod lleol**

| | **Poblogaeth** | **% o Went** |
|---|---|---|
| Gwent | **594,412** | |
| Blaenau Gwent | 67,356 | 11.31 |
| Caerffili | 176,437 | 29.63 |
| Sir Fynwy | 94,572 | 15.88 |
| Casnewydd | 163,628 | 27.48 |
| Torfaen | 93,419 | 15.69 |


### 2.1.1.2 Poblogaeth

Ar sail amcangyfrifon poblogaeth StatsCymru ar gyfer canol blwyddyn 2023, roedd cyfanswm poblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd yn 594,412, ac roedd 49.06% ohonynt yn wrywod a 50.94% yn fenywod[9].

Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 6.02% erbyn 2043, o'r amcangyfrif poblogaeth o 594,412 yn 2023 i 617,305 yn 2034 (cynnydd o 3.71%) ac i 630,230 yn 2043, cynnydd pellach o 2.31%. Gwelir y cynnydd mwyaf yng Nghasnewydd ble ceir cynnydd amcangyfrifiedig o 7.95% (163,628 i 176,631); mae cynnydd rhagamcanol Sir Fynwy yn 7.04%, ac mae'r cynnydd hwnnw yn 5.09% ac achos Torfaen ac yn 4.82% yn achos Caerffili. Rhwng 2018 a 2023, bu gostyngiad o 3.39% ym mhoblogaeth Blaenau Gwent, ond rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.80% erbyn 2043.

**Ffigur 2.1.1 - rhagamcan poblogaeth fesul ardal leol**

[9] Amcangyfrifon poblogaeth (StatsCymru)





Yn 2023, roedd 21% o'r boblogaeth dros 65 oed ac roedd bron i chwech o bob deg (61%) o oedran gweithio (16 i 64 oed) a bron i un o bob pump (18%) o dan 16 oed.

Rhwng 2013 a 2023, mae'r boblogaeth rhwng 16 a 24 oed wedi gostwng 12,078 (22.72%), o 65,233 i 53,155.  Mae hynny gryn dipyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru (8.6%).

Mae'r ffigur isod yn dangos sut mae oedran y boblogaeth wedi newid yn y ddeng mlynedd rhwng 2013 a 2023, â gostyngiad yn nifer y sawl sy'n 0-4 oed, 16-24 oed a 45-64 oed.

**Ffigur 2.1.2 – newid yn oedran y boblogaeth ar sail amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, 2013 a 2023**



Rhagwelir y bydd y cynnydd yn y boblogaeth dros 65 oed yn 16.7%, ac amcangyfrifir y bydd un o bob pedwar (25%) yn 65 oed neu'n hŷn yn 2034. Mae hynny ychydig yn uwch na'r rhagamcan ar gyfer Cymru (15.5%).

Erbyn 2034, rhagwelir y bydd cynnydd o tua 42.7% yn nifer y bobl sy'n 85 oed neu'n hŷn (o tua 15,311 yn 2023 i 21,842). Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyffredinol a ragwelir ar gyfer Cymru, sef 31.3%.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2023 yn dangos bod 303,328 yn fenywod a 292,084 yn wrywod.

*Marwoldeb*
Ers 2013 mae pob awdurdod lleol wedi profi gostyngiad yn y cyfraddau marwolaethau (wedi'u safoni yn ôl oedran) ar gyfer y sawl sydd dros 80 oed. Yn Sir Fynwy, cafwyd gostyngiad o 10.53% yn nifer marwolaethau pobl 80-84 oed. Fodd bynnag, bu newidiadau sylweddol ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy yn yr oedran 85-89 a chafwyd gostyngiadau o 21.57% a 13.38% yn y drefn honno. Mae newidiadau hefyd wedi digwydd yn achos grwpiau oedran eraill, a chafwyd cyfradd marwolaethau is ym Mlaenau Gwent yn y grwpiau oedran 35-39 a 55-59 ac yn Nhorfaen yn achos y rhan fwyaf o grwpiau oedran, ac eithrio pobl 40-49 oed.

*Dwysedd*
Ac eithrio Sir Fynwy, mae gan ranbarth y bwrdd iechyd ddwysedd poblogaeth uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae'r ardal fwyaf dwys ei phoblogaeth yng Nghasnewydd.

**Tabl 2.1.2 - dwysedd poblogaeth (pobl fesul cilomedr sgwâr), 2023**[10]

| | |
|---|---|
| Cymru | 152.60 |
| Blaenau Gwent | 619.49 |
| Caerffili | 636.07 |
| Sir Fynwy | 111.37 |
| Casnewydd | 859.25 |
| Torfaen | 743.20 |


### 2.1.1.3 Ethnigrwydd

Yn ôl data Cyfrifiad 2021[11], roedd 94.2% o boblogaeth y Bwrdd Iechyd yn perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn. Mae'r 5.8% arall yn drigolion sy'n disgrifio eu hunain fel a ganlyn:

- Asiaidd/Asiaidd Prydeinig - 2.9%
- Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig - 1.5%
- Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig - 0.8%
- Grwpiau ethnig eraill - 0.7%

[10] Dwysedd (StatsCymru)
[11] Nomis - Grwpiau ethnig 2021

**Ffigur 2.1.3 - % ethnigrwydd Gwent**




Mae gan Gasnewydd boblogaeth fwy amrywiol o ran ei hethnigrwydd nag ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill. Ac eithrio Casnewydd, mae canran y grŵp ethnig Gwyn yn ardaloedd yr awdurdodau lleol yn uwch na chanran Cymru.


**Tabl 2.1.3 – Grwpiau ethnig (canran) fesul awdurdod lleol a Chymru**

| Awdurdod lleol | Gwyn | Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig | Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | Grwpiau ethnig eraill |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 97.8 | 0.9 | 0.8 | 0.2 | 0.2 |
| Caerffili | 97.7 | 0.9 | 1 | 0.2 | 0.2 |
| Sir Fynwy | 96.9 | 1.3 | 1.2 | 0.2 | 0.3 |
| Casnewydd | 85.5 | 7.6 | 2.8 | 2.4 | 1.7 |
| Torfaen | 97.1 | 1.3 | 1.1 | 0.2 | 0.3 |
| Cymru | 93.8 | 2.9 | 1.6 | 0.9 | 0.9 |

### 2.1.1.4 Iaith y cartref

Mae Cyfrifiad 2021 yn dweud wrthym fod 97% o'r boblogaeth (569,430) yng Ngwent yn datgan mai Saesneg neu'r Gymraeg yw eu prif iaith a bod 3,441 yn dweud nad ydynt yn gallu siarad Saesneg yn dda.[12] Fel y gwelir o'r ffigur isod, mae'r gallu i siarad Saesneg ar ei uchaf yn yr ystod oedran canol oedolaeth.

**Ffigur 2.1.4 – Hyfedredd yn y Saesneg yn ôl oedran**




Dyma'r chwe iaith nesaf a siaredid amlaf:

- Pwyleg – 2.7%
- Rwmaneg – 0.9%
- Bengaleg (yn cynnwys Sylheti a Chatgaya) – 0.2%, Arabeg, Hwngareg a Pwnjabeg - 0.5% yr un

Ceir rhywfaint o amrywio ar lefel awdurdodau lleol; ceir canran lai o bobl sy'n siarad Saesneg fel eu prif iaith yng Nghasnewydd (95%) o gymharu ag ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill ( 99% yn achos pob un).

### 2.1.1.5 Sgiliau yn y Gymraeg[13]

Mae sgiliau iaith Gymraeg trigolion Caerffili yn well ar y cyfan nag yn ardaloedd yr awdurdodau lleol eraill; trigolion Blaenau Gwent yw'r rhai lleiaf tebygol o fod ag unrhyw

12 Hyfedredd iaith Nomis 2021 (Saesneg)
13 Hyfedredd iaith Nomis 2021 (Cymraeg)

sgiliau. Ond ni nododd mwyafrif y trigolion yn ardal y Bwrdd Iechyd unrhyw sgiliau yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 (87%).

**Tabl 2.1.4 – Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl awdurdod lleol**

| % | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dim sgiliau yn y Gymraeg** | 90.2 | 84.8 | 87.3 | 88.6 | 88.2 |
| **Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** | 4.7 | 8.5 | 6.8 | 5.7 | 6.5 |
| **Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig** | 2.3 | 3.1 | 2.5 | 2.5 | 2.2 |
| **Yn gallu siarad Cymraeg a chyfuniadau eraill o sgiliau yn y Gymraeg** | 0.1 | 0.2 | 0.1 | 0.2 | 0.1 |
| **Yn gallu siarad ond nid yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg** | 0.9 | 1.2 | 1.2 | 1.2 | 1.1 |
| **Yn gallu siarad a darllen ond nid yn gallu ysgrifennu Cymraeg** | 0.4 | 0.6 | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| **Yn gallu darllen ond nid yn gallu siarad nac ysgrifennu Cymraeg** | 0.7 | 1.1 | 1.0 | 0.8 | 0.7 |
| **Yn gallu darllen ac ysgrifennu ond nid yn gallu siarad Cymraeg** | 0.4 | 0.4 | 0.5 | 0.5 | 0.4 |
| **Yn gallu ysgrifennu ond nid yn gallu siarad na darllen Cymraeg** | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.2 |

### 2.1.1.6 Crefydd

Yn 2021, dywedodd 44.2% o'r boblogaeth eu bod yn dilyn un o'r chwe phrif grefydd, gostyngiad o gymharu â 57.1% yng nghyfrifiad 2021. Dywedodd 49.9% nad oeddent yn dilyn unrhyw grefydd, cynnydd o gymharu â 35.3% yn flaenorol. Ni wnaeth 5.82% gynnig unrhyw ymateb.

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad o ran crefyddau. Cristnogaeth yw'r grefydd fwyaf poblogaidd o hyd ond mae'r ganran ychydig yn is na chyfanswm Cymru. Mae canran y bobl nad ydynt yn dilyn crefydd ychydig yn uwch na'r un ganran ar lefel Cymru. Mae Casnewydd yn ail yn unig i Gaerdydd o ran y nifer sy'n nodi mai Islam yw eu prif grefydd.

**Tabl 2.1.5 – crefydd ar lefel awdurdod lleol a Chymru[14]**

[14] Nomis 2021 - Crefydd


| Crefydd | Blaenau Gwent | Caerffili | Sir Fynwy | Casnewydd | Torfaen |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim crefydd | 56.4 | 56.7 | 43.4 | 43.0 | 50.8 |
| Cristion | 36.5 | 36.4 | 48.7 | 42.8 | 41.5 |
| Bwdhydd | 0.2 | 0.2 | 0.4 | 0.3 | 0.3 |
| Hindŵ | 0.1 | 0.1 | 0.2 | 0.5 | 0.3 |
| Iddew(es) | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.1 | 0.0 |
| Mwslim | 0.4 | 0.3 | 0.5 | 7.1 | 0.4 |
| Sîc | 0.2 | 0.1 | 0.1 | 0.3 | 0.1 |
| Crefydd arall | 0.5 | 0.4 | 0.6 | 0.5 | 0.5 |
| Heb ateb | 5.8 | 5.7 | 6.2 | 5.6 | 6.1 |

### 2.1.1.7 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru[15]

Mesurir amddifadedd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. Cyfrifir hyn ar gyfer ardaloedd daearyddol bach o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, o 1 (mwyaf amddifad) i 1,909 (lleiaf amddifad).

Ceir wyth maes yn y mynegai, a cheir dangosyddion gwahanol ym mhob un ohonynt. Caiff y rhain eu pwysoli a'u cyfuno wedi hynny i lunio'r mynegai cyffredinol o amddifadedd lluosog. Mae'r ffigur isod yn dangos pob maes a'u pwysoliad.

**Ffigur 2.1.5 – wyth parth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a'u pwysoliad priodol**





Er y caiff ardal ei hystyried yn un â lefel isel o amddifadedd, nid yw pawb sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn ddifreintiedig o reidrwydd, ac yw pawb sy'n ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig. Amgylchiadau'r bobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar ei sgôr amddifadedd, nid yr ardal ei hun.

Mae'r map isod yn dangos pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn ardal y Bwrdd Iechyd a'i safle yn y mynegai.

**Map 2.1.8 - Map o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ôl ardaloedd cynnyrch ehangach haen is**

[15] Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019
http://www.publichealthwalesobservatory.wales.nhs.uk/wimd-2014



Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2019. Arolwg Ordnans 100017916

| Rank | Most deprived |
|---|---|
| 1 - 191 | 10% most deprived |
| 192 - 382 | 10-20% most deprived |
| 383 - 573 | 20-30% most deprived |
| 574 - 955 | 30-50% most deprived |
| 956 - 1909 | 50% least deprived |
| | Least deprived |

Mae’r tabl isod yn dangos nifer yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is sydd fwyaf difreintiedig fesul ardal awdurdod lleol.

**Tabl 2.1.6 - ardaloedd cynnyrch ehangach haen is sydd fwyaf difreintiedig fesul awdurdod lleol**

| | Cyfanswm yr ardaloedd cynnyrch ehangach | 10% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru | 20% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru | 30% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru | 50% LSOA mwyaf difreintiedig yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|

| | haen is (LSOA) | (safleoedd 1 - 191) | (safleoedd 1 - 382) | (safleoedd 1 - 573) | (safleoedd 1 - 955) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 47 | 6 | 21 | 30 | 40 |
| **Caerffili** | 110 | 11 | 26 | 42 | 69 |
| **Sir Fynwy** | 56 | 0 | 1 | 3 | 11 |
| **Casnewydd** | 95 | 23 | 33 | 38 | 57 |
| **Torfaen** | 60 | 3 | 19 | 25 | 34 |

Blaenau Gwent yw’r awdurdod lleol sydd â’r ganran uchaf o ardaloedd difreintiedig yn rhanbarth y bwrdd iechyd, a Sir Fynwy sydd â’r ganran isaf.

#### 2.1.1.8 Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach

Mae’r data diweddaraf ar gyfer disgwyliad oes (2018-2020) yn dangos mai’r disgwyliad oes ar gyfer dynion yw 78.12, sy’n ostyngiad o'r hyn a nodwyd yn 2017-2019, sef 78.35. Mae disgwyliad oes menywod yn uwch, er ein bod wedi gweld yr un gostyngiad mewn disgwyliad oes o 82.07 i 81.70. Mae cyfartaledd Gwent yn is na’r disgwyliad oes ar gyfer dynion a menywod ledled Cymru (78.3 a 82.1 o flynyddoedd yn y drefn honno).

Wrth edrych ar lefel awdurdod lleol, Sir Fynwy yw’r awdurdod lleol sydd â’r disgwyliad oes uchaf ar gyfer dynion a menywod, sef 81.63 o flynyddoedd ac 84.6 o flynyddoedd yn y drefn honno. Mae hyn yn cyferbynnu â Blaenau Gwent lle mae disgwyliad oes ar ei isaf, sef 76.3 ar gyfer dynion a 79.96 i fenywod.

Mae'r tablau isod yn dangos sut mae disgwyliad oes wedi newid ar gyfer dynion a menywod ar lefel awdurdodau lleol. Yn 2018 – 2020, roedd disgwyl i fenywod a aned yn Sir Fynwy fyw bron 5 mlynedd yn hwy na menywod a aned ym Mlaenau Gwent, ac ar gyfer dynion mae’r gwahaniaeth dros 5 mlynedd.[16]

**Tabl 2.1.7 Disgwyliad oes dynion 2001 – 2020**

| | 2001-2003 | 2006-2008 | 2011-2013 | 2017-2019 | 2018-2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 73.63 | 75.26 | 75.51 | 76.54 | 76.3 |
| **Caerffili** | 74.57 | 75.58 | 77.64 | 77.76 | 77.4 |
| **Sir Fynwy** | 77.03 | 78.74 | 79.81 | 81.49 | 81.63 |
| **Casnewydd** | 74.66 | 76.93 | 77.85 | 77.87 | 77.54 |
| **Torfaen** | 75.45 | 76.78 | 77.59 | 78.23 | 78.12 |

[16] Disgwyliad Oes Ac Achosion Marwolaeth yn BIPAB

**Tabl 2.1.8 Disgwyliad oes menywod 2001 – 2020**

| | 2001-2003 | 2006-2008 | 2011-2013 | 2017-2019 | 2018-2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 78.44 | 78.6 | 80.06 | 80.42 | 79.96 |
| **Caerffili** | 79.37 | 80.73 | 81.46 | 81.39 | 81.12 |
| **Sir Fynwy** | 81.31 | 83.21 | 83.98 | 84.45 | 84.6 |
| **Casnewydd** | 80.43 | 80.92 | 82.2 | 82.25 | 81.63 |
| **Torfaen** | 79.97 | 80.7 | 81.74 | 81.85 | 81.34 |

Disgwyliad oes iach yw nifer y blynyddoedd y mae pobl yn ei fyw mewn iechyd da. Y gwahaniaeth mewn disgwyliad oes iach rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yw 12.8 mlynedd i ddynion ac 20.5 mlynedd i fenywod.

Sir Fynwy sydd â'r disgwyliad oes iach uchaf ar gyfer dynion a menywod a Blaenau Gwent sydd â'r disgwyliad oes isaf.

Mae'r tabl isod yn dangos yr amrywiad ar lefel awdurdod lleol yn ogystal â'u safle yn erbyn yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru (mae un yn cynrychioli'r awdurdod lleol sydd â'r nifer leiaf o fywydau iach a 22 yw'r mwyaf). O'r tabl hwn gallwn weld mai Blaenau Gwent yw'r awdurdod lleol sydd yn y safle isaf yng Nghymru[17] .

**Tabl 2.10.9 Marwolaethau cynamserol o glefydau allweddol anhrosglwyddadwy, 2016-2018 fesul awdurdod lleol[18]**

| | Cyfradd | Safle |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 391.4 | 1 |
| **Caerffili** | 344.7 | 7 |
| **Sir Fynwy** | 244.7 | 22 |
| **Casnewydd** | 347.3 | 5 |
| **Torfaen** | 342.2 | 8 |

### 2.1.1.9 Marwolaethau

[17] Blaenau Gwent Well-being Assessment 2022-23
[18] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, offeryn adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Mae ymddygiadau afiach fel deiet gwael, diffyg gweithgareddau corfforol, ac ysmygu yn cyfrannu'n sylweddol at glefydau cylchrediad y gwaed a rhai mathau o ganser. Mae canfod a diagnosis cynnar yn aml yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pob clefyd anhrosglwyddadwy, gan gynnwys sawl math o ganser. Mae hyn yn dibynnu nid yn unig ar wasanaethau gofal iechyd ond hefyd ar unigolion sy'n ymwybodol o symptomau canser a chlefydau eraill ac yn ceisio triniaeth yn brydlon.[19]

#### 2.1.1.10 Gweithgarwch economaidd

Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 57.8% o bobl Gwent yn economaidd weithgar (yn gyflogedig, hunangyflogedig naill ai'n ddi-waith ond yn chwilio am waith ac yn gallu dechrau o fewn pythefnos, a myfyrwyr llawn amser), gyda'r gweddill (42.2%) yn economaidd anweithgar (di-waith, wedi ymddeol, myfyriwr, gofalu am gartref neu deulu, yn sâl hirdymor neu'n anabl).

O ran y boblogaeth gyfan:

- Casnewydd sydd â'r lefel uchaf o bobl sy'n economaidd weithgar (58.6%) ac mae'r lefel isaf ym Mlaenau Gwent (54%). O'r rhai sy'n economaidd weithgar, mae:
  - 39.5% yn gweithio'n llawn amser,
  - 15.2% yn gweithio'n rhan amser, a
  - 6.9% yn hunangyflogedig.
- Yng Ngwent, dywedodd 3.35% o fyfyrwyr amser llawn eu bod hefyd yn economaidd weithgar tra bod 4% yn fyfyrwyr amser llawn nad ydynt yn economaidd weithgar. Yn y ddau achos Casnewydd oedd â'r % uchaf. Sir Fynwy sydd â'r % isaf o fyfyrwyr sy'n economaidd weithgar a Blaenau Gwent a Sir Fynwy sydd â'r % isaf ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn economaidd weithgar.
- O ran y rhai nad ydynt yn economaidd weithgar, roedd 23.87% wedi ymddeol. Roedd y % uchaf yn Sir Fynwy (15.7%) a'r isaf yng Nghasnewydd (11.5%).
- Roedd 4.6% yn gofalu am gartref neu deulu (y % uchaf yng Nghasnewydd (2.83%) a'r isaf yn Sir Fynwy (1.9%)).
- Roedd 6.8% â salwch neu anabledd hirdymor ac yn economaidd anweithgar (y % uchaf yng Nghaerffili (10.43%) a'r isaf yn Sir Fynwy (2.94%)).

### 2.1.2 Gwasanaethau a Gomisiynir

#### 2.1.2.1 Gwasanaethau offthalmig sylfaenol

Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gosod y cyfrifoldeb am gomisiynu gwasanaethau offthalmig sylfaenol ar Fyrddau Iechyd Lleol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys profion golwg a gwasanaethau archwilio llygaid ar gyfer eu cleifion.

[19] Asesiad Llesiant Blaenau Gwent 2022-23

Bu newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn 2023 a ddiwygiodd ofynion yr hyn yr oedd yn rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ei Gomisiynu o ran gwasanaethau offthalmig sylfaenol. Cyfeirir at y gwasanaethau hyn bellach fel Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS).

Mae trefniadau manwl ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 a Chyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) 2023.

### Profion Golwg

Prawf golwg yw'r prif ofal y mae claf yn ei dderbyn mewn perthynas ag iechyd ei lygaid. Gellir darparu hyn ar y GIG ar gyfer y cleifion hynny sy'n gymwys, neu fel gwasanaeth preifat. Cyfeirir at brofion Golwg y GIG fel Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (GOS). Pan ddefnyddir y term prawf golwg yn yr Asesiad hwn o Anghenion Iechyd Llygaid mae'n cyfeirio at brawf golwg.

Cynhelir profion golwg gan bobl sydd â chymwysterau a chofrestriad priodol. Fe'i gelwir yn Optometryddion neu Ymarferwyr Meddygol Offthalmig (OMP).

Mae gofynion y prawf golwg wedi'u nodi yn Neddf Optegwyr 1989.

Dylai cleifion gael prawf golwg yn seiliedig ar y cyfnodau gofynnol fel y nodir yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth.

Cynhelir profion golwg naill ai mewn safle sydd wedi'i gofrestru, neu os yw'r claf yn gymwys, yn ei breswylfa arferol neu mewn canolfan ddydd gydnabyddedig.

Pan ddarperir prawf golwg, efallai y bydd gofal pellach yn cael ei nodi a gall y contractwr gyfeirio'r claf ar gyfer WGOS arall neu at ddarparwr gofal eilaidd fel sy'n briodol i'w anghenion clinigol.

Yn dilyn prawf golwg efallai y bydd angen teclyn optegol ar glaf a, lle bo'n gymwys, gall dderbyn cyfraniad ariannol at gost y teclynnau (Talebau'r GIG).

### Gwasanaethau archwilio llygaid

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol (Cymru) 2023[20] yn diffinio archwiliad llygaid fel "archwiliad o'r llygad at ddiben gwneud diagnosis o gyflwr llygaid neu benderfynu ar driniaeth ar gyfer cyflwr llygaid, neu adolygu cyflwr presennol, sy'n cynnwys y profion a'r gweithdrefnau hynny a'r cyngor hwnnw sy'n briodol i'r arwyddion a'r symptomau sy'n ymgyflwyno yn y claf, ac i anghenion y claf hwnnw".

Mae'r gwasanaethau y darperir ar eu cyfer o dan Ddeddf Iechyd y GIG (Cymru) bellach yn cynnwys:

WGOS 1 – archwiliad llygaid sy'n cynnwys prawf golwg sy'n ymgorffori atal a llesiant i greu cynllun rheoli sy'n benodol i'r claf.

[20] Rheoliadau GDS (Cymru)

WGOS 2 – tri gwasanaeth gofal llygaid gwahanol i'w cwblhau mewn lleoliad gofal sylfaenol:

- Band 1: Gofal llygaid acíwt a derbyn cyfeiriadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill;
- Band 2: Archwiliad pellach i hysbysu neu atal cyfeirio; a
- Band 3: Archwiliadau dilynol i Fand 1 ac Asesiadau ar ôl Cataract.

Yr enw blaenorol ar y gwasanaethau hyn oedd Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru (EHEW).

WGOS 3 - yn galluogi cleifion a fyddai'n elwa o gymhorthion optegol a rhai nad ydynt yn optegol, yn ogystal â chymorth adsefydlu cyfannol (gan gynnwys cofrestru nam ar y golwg) a chyngor am fynediad at wasanaethau golwg gwan yn eu cartref neu'n agos ato. Mae WGOS 3 hefyd yn cynnwys Tystysgrif Nam ar y Golwg (CVIW).

Yr enw blaenorol ar y gwasanaeth hwn oedd y Gwasanaeth Golwg Gwan.

WGOS 4 -gwasanaeth ar gyfer cleifion a fyddai yn y gorffennol, wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty, neu y byddai eu cyflwr wedi ei reoli gan y gwasanaeth hwn. Bydd y cleifion hynny nawr, yn aros mewn lleoliadau gofal sylfaenol i gael eu hasesu'n fanylach fel rhan o lwybr monitro neu fireinio cyfeirio y cytunwyd arno.

Y cyflyrau a reolir o dan WGOS 4 (cytundebau gwasanaeth ar gael) yw:

- Retina meddygol
- Hydroxychloroquine (HCQ)
- Hidlo cyfeiriadau glawcoma
- Monitro glawcoma

Mae'n bosibl y byddai rhai o'r rhain wedi'u comisiynu'n wasanaethau lleol yn y gorffennol, ond byddant bellach yn dod o dan WGOS 4.

WGOS 5 – darparu gwasanaethau gofal llygaid mewn lleoliad gofal sylfaenol sy'n gofyn am Optometrydd/OMP presgripsiynu annibynnol i reoli, trin a monitro cleifion er mwyn atal eu cyfeirio.

Mae'n bosibl y byddai rhai o'r rhain wedi'u comisiynu'n wasanaethau lleol yn y gorffennol, ond byddant bellach yn dod o dan WGOS 5.

Disgwylir i gontractwyr sydd ar restr offthalmig byrddau iechyd lleol ddarparu WGOS1 a WGOS2 fel mater o drefn. Darperir WGOS3-5 gan gontractwyr sydd wedi'u comisiynu'n benodol gan y bwrdd iechyd lleol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl am bob un o'r gwasanaethau hyn yn https://www.nhs.wales/wgos services

## Gwasanaethau ychwanegol

Gall Byrddau Iechyd Lleol gomisiynu gwasanaethau lleol eraill ochr yn ochr â gwasanaethau WGOS fel y gwelant yn dda, er mwyn diwallu anghenion iechyd llygaid y boblogaeth. Nid yw'r rhain wedi'u pennu'n genedlaethol, maent i'w hystyried a'u trafod yn lleol. Mae gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cynnwys:

- Mireinio Cyfeirio Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig ag Oedran (AMD Gwlyb)
- Optometrydd Presgripsiynu Annibynnol
- Rhannu gofal glawcoma
- Adolygiad retinol
- Cynllun cyfeirio retinopathi diabetig

Mae rhai o'r gwasanaethau hyn a oedd yn wasanaethau a gomisiynwyd yn y gorffennol, bellach wedi'u cynnwys yng ngwasanaethau WGOS.

Mae'r bwrdd iechyd wedi comisiynu Canolfan Diagnostig a Thriniaeth Offthalmig Glawcoma, lle mae ymgynghorydd offthalmoleg yn brysbennu ac yn penderfynu pa gleifion y gellir eu gweld o dan y gwasanaeth hwn. Yna mae cleifion yn cael eu gweld gan optometrydd i gael y profion perthnasol ac i gasglu gwybodaeth ar gyfer adolygiad rhithwir gan yr offthalmolegydd ymgynghorol. Bydd hwn nawr yn dod yn wasanaeth Glawcoma WGOS 4.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi comisiynu cynllun mireinio cyfeirio AMD Gwlyb. Mae optometrydd yn gweld cleifion o fewn dau ddiwrnod o gael eu cyfeirio. Bydd delweddau a chraffter gweledol yn cael eu cofnodi ac yna, byddant yn cael eu hadolygu gan offthalmolegydd ymgynghorol. Os amheuir AMD Gwlyb, bydd cleifion yn cael eu gweld mewn clinig mynediad cyflym i gadarnhau diagnosis a thriniaeth. Bydd hyn nawr yn dod o dan WGOS4 - Gwasanaeth Retina Meddygol.

#### Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Gwasanaeth a gomisiynwyd i fonitro cleifion â diabetes (gyda rhai eithriadau) mewn perthynas â retinopathi diabetig. Mae cleifion heb retinopathi o gwbl neu rai â retinopathi cyfyngedig yn cael adolygiad blynyddol. Os canfyddir retinopathi, caiff y claf ei gyfeirio at adran offthalmoleg.

#### Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty

Er y gellir rheoli llawer o gyflyrau llygaid yn briodol yn y gymuned, mae rhai cyflyrau sydd angen gofal mwy arbenigol, sef mynediad at wasanaethau offthalmoleg, mewn lleoliad gofal eilaidd, fel arfer. Mae hwn yn ofal lle mae’r claf wedi’i gyfeirio gan optometrydd neu feddyg teulu. Efallai y bydd gofal hefyd yn dilyn presenoldeb brys yn yr adran damweiniau ac achosion brys / clinig anafiadau llygaid. Darperir gofal fel gofal cleifion mewnol a chleifion allanol.

### 2.1.2.2 Cymhwysedd cleifion

#### WGOS 1 – archwiliad llygaid

Mae cymhwysedd i gael prawf golwg am ddim gan y GIG wedi'i nodi yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 (2008) fel y'u diwygiwyd.

Y cleifion sy'n gymwys i gael prawf golwg yw'r rhai sydd:

- o dan 16 mlwydd oed

- o dan 19 mlwydd oed ac yn cael addysg lawn amser gymhwysol
- yn 60 mlwydd oed ac yn hŷn
- angen gwisgo teclyn cymhleth (gall eich optegydd eich cynghori ynghylch hyn)
- wedi ei gofrestru fel unigolyn â nam ar ei olwg neu unigolyn â nam difrifol ar ei olwg mewn cofrestr a gedwir gan awdurdod lleol
- wedi cael diagnosis o ddiabetes neu glawcoma, neu wedi cael cyngor gan offthalmolegydd fod ganddo ragdueddiad i ddatblygu glawcoma
- yn 40 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn rhiant, yn frawd, yn chwaer neu'n blentyn i unigolyn sydd wedi cael diagnosis o glawcoma
- o dan 18 mlwydd oed ac yng ngofal awdurdod lleol (y mae awdurdod lleol cyfrifol yn cyfrannu at ei gynhaliaeth)
- yn garcharor
- yn gweld ag un llygad yn unig
- â nam ar ei glyw
- wedi cael diagnosis o retinitis pigmentosa
- wedi cael asesiad clinigol a ddangosodd ei fod mewn perygl penodol o ddatblygu clefyd llygaid

Rydych chi hefyd yn gymwys os:

- ydych chi neu'ch partner (gan gynnwys partner sifil) yn cael rhai budd-daliadau penodol
- os ydych chi o dan 20 mlwydd oed ac yn ddibynnydd i rywun sy'n cael rhai budd-daliadau penodol
- oes gennych chi incwm isel

Mae gwasanaeth WGOS 1 ar gael ble bynnag mae'r claf yn byw, gan gynnwys bod y tu allan i Gymru.

## WGOS 2

Band 1 – Gofal llygaid acíwt

Bydd cleifion yn gymwys os oes ganddynt broblem llygaid acíwt sy'n gofyn am archwiliad clinigol, eu bod wedi'u cyfeirio gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall ar gyfer ymchwiliad pellach neu drwy lwybr arall y cytunwyd arno.

Band 2 - Hysbysu neu atal cyfeirio

Bydd cleifion yn gymwys os penderfynir, yn ystod archwiliad llygaid/prawf golwg preifat WGOS 1, fod angen ymchwiliad pellach i lywio neu atal cyfeirio,

ac y bydd darparu gwasanaeth Band 2 yn atal cyfeirio neu'n rhoi gwybodaeth werthfawr ychwanegol.

Band 3 – Band 1 neu asesiad ar ôl llawdriniaeth cataract

Mae cleifion yn gymwys pan fo angen apwyntiad dilynol ar ôl archwiliad Band 1, neu lle mae claf wedi'i ryddhau i'r gwasanaeth optometreg ar gyfer asesiad cataract ar ôl llawdriniaeth neu fel rhan o lwybr y cytunwyd arno.

Nid oes tâl i gleifion yn gysylltiedig â gwasanaethau WGOS 2.

### WGOS 3 – Golwg gwan a Thystysgrif Nam ar y Golwg (CVIW)

Mae claf yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth pan fydd wedi cael Archwiliad Llygaid WGOS 1 neu Brawf Golwg Preifat yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gellir cwblhau hyn yn union cyn yr Asesiad Golwg Gwan neu'r Dilyniant) a bod gan y claf o leiaf un o'r canlynol:

- Craffter golwg pellter binocwlaidd o 6/12 neu waeth
- Craffter golwg agos o N6 neu waeth gydag ychwanegiad darllen +4.00
- Nam ar y swyddogaeth weledol a/neu ddiffyg sylweddol yn y maes gweledol
- Tystysgrif Nam ar y Golwg neu Nam Difrifol ar y Golwg (CVIW)

Nid oes tâl i gleifion os yw'n glaf WGOS 3 cymwys.

### WGOS 4 - Retina Meddygol, Hydroxychloroquine (HCQ) a Glawcoma

Mireinio cyfeiriadau retina meddygol – cyfeirir claf gan optometrydd ar ôl ei frysbennu yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty.

Monitro retina meddygol – mae claf yn gymwys os yw ei gyflwr wedi'i nodi fel un y gellir ei reoli o fewn y cylch gwaith hwn neu ar ôl cael ei ryddhau o Wasanaeth Llygaid mewn Ysbyty.

Hydroxychloroquine - mae claf yn gymwys ar ôl cyfeiriad lle mae risg o wenwyn retinol HCQ.

Hidlo cyfeiriadau glawcoma - mae claf yn cael ei gyfeirio gan optometrydd ar ôl ei frysbennu yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty.

Monitro glawcoma – cleifion sy'n cael eu cyfeirio gan glinigwyr eraill yn dilyn ymgynghoriad neu ar ôl eu brysbennu yn y Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty, neu pan na allant gael eu rheoli gan optometrydd nad yw'n ymdrin â glawcoma ar ôl eu rhyddhau.

Nid oes tâl i gleifion os yw'n glaf WGOS 4 cymwys.

### WGOS 5 Optometrydd Presgripsiynu Annibynnol (IPOS)

Bydd claf yn gymwys yn dilyn cyfeirio ar ôl archwiliad WGOS ar gyfer cyflwr na ellir ei reoli gan optometrydd nad yw'n bresgripsiynydd annibynnol neu'n optegydd lensys cyffwrdd. Gall hyn hefyd gynnwys dewis claf ar gyfer gwasanaeth WGOS 5 yn hytrach na gwasanaeth WGOS 2. Bydd claf hefyd yn gymwys os yw wedi'i frysbennu gan yr adran offthalmoleg a'i fod ar y pryd yn addas ar gyfer gwasanaeth WGOS 5 ac na all gael ei reoli gan wasanaeth WGOS 2.

### Gwasanaethau cartref

Os oes angen gwasanaeth cartref ar unigolyn, yna rhaid iddo fod yn gymwys.

Rhaid i'r claf fodloni'r gofyniad cymhwysedd ar gyfer pob gwasanaeth ac yna rhaid iddo hefyd fodloni'r gofynion canlynol:

“mae amgylchiadau’r claf sy’n ymwneud â’i salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd yn ei gwneud yn amhosibl neu’n afresymol iddo dderbyn gwasanaethau offthalmig sylfaenol mewn lleoliad cofrestredig”

### Dewis y claf

Gall claf ddewis gofyn am brawf golwg gan unrhyw ddarparwr gwasanaethau GIG. Gall hwn fod yn ddarparwr sy’n agos at ble maent yn byw ond gall hefyd fod yn unrhyw ddarparwr, nid un sydd o reidrwydd yn y bwrdd iechyd lleol lle maent yn byw.

Y bwrdd iechyd lleol lle cynhelir y prawf golwg sy’n gyfrifol am dalu’r contractwr am ddarparu’r gwasanaeth.

Os yw claf yn gymwys i gael prawf golwg cartref, mae hefyd yn gallu ceisio'r gwasanaeth hwn gan unrhyw gontractwr sydd ar y rhestr offthalmig ar gyfer darparu prawf golwg. Nid ydynt yn gallu cael prawf golwg gan gontractwr nad yw ar y rhestr hon.


Bydd contractwr cartref ar gyfer WGOS 1 a 2 yn cwmpasu Gwent gyfan. Gellir darparu gwasanaethau WGOS 3 a 5 lle cânt eu comisiynu a gallant gwmpasu ardal y cytunwyd arni sy'n llai na ffin Gwent gyfan.

## 2.1.3 Cyflyrau clinigol gan gynnwys nifer yr achosion

Mae dros ddwy filiwn o bobl wedi colli eu golwg yn y DU. O'r rheini mae dros filiwn o ganlyniad i gyflwr hirdymor na ellir ei wrthdroi. Amcangyfrifir y bydd y ffigwr hwn yn dyblu i dros bedair miliwn erbyn 2050[21].

Caiff prif achosion colli golwg eu priodoli i bum cyflwr clinigol[22].

**Ffig 2.1.5 – Canran colli golwg fesul cyflwr**




[21] Pezzullo (2018)
[22] Offeryn data colli golwg RNIB

Caiff nifer yr achosion o bob cyflwr iechyd llygaid yn y bennod hon eu cyfrifo gan ddefnyddio offeryn Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) (2021) [23] sy'n defnyddio'r model cyffredinrwydd a gymerwyd o'r Model Epidemiolegol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Llygaid (NEHEM)[24]. Yna caiff y cyfraddau cyffredinrwydd sylfaenol eu cymhwyso i'r amcangyfrifon a'r rhagamcanion diweddaraf sydd ar gael gan yr asiantaeth ystadegau gwladol perthnasol.

#### 2.1.3.1 Cataractau


Datblygiad afreoleidd-dra yn strwythur y lens grisialaidd yw cataract. Mae'n arwain at leihad mewn tryloywder â'r lens yn mynd yn niwlog neu'n gymylog. Gellir rhannu cataractau i wahanol ddosbarthiadau - cataract niwclear sy'n effeithio ar graidd mewnol y lens, cataract cortigol sy'n effeithio ar yr haenau allanol, a chataract isgapsiwlaidd sy'n digwydd ar wyneb y lens.

Mae cataractau yn gyflwr cyffredin mewn pobl hŷn. Mae'n gwaethygu dros amser ond mae'n gallu bod yn anodd sylwi ar yr effaith ar y golwg. Fel arfer, bydd yn cael ei drin trwy newid y lens am un artiffisial.

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod 6,790 o bobl yn byw yng Ngwent â chataractau a allai fod angen ymyriad llawfeddygol (lle tybir y byddai eu tynnu yn fuddiol). Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 8,200 yn 2032, sef cynnydd o 17%. Mae hyn yn is na’r cynnydd o 22% a ragwelir yng Nghymru.

Mae disgwyl i Sir Fynwy weld y cynnydd mwyaf (27%) a Blaenau Gwent y cynnydd isaf (16%).

**Ffigur 2.1.6 - Amcangyfrif o nifer y bobl â chataractau yn 2022 a 2032 a % y cynnydd**




---

23 Offeryn data colli golwg RNIB
24 NEHEM


### 2.1.3.2 Glawcoma

Mae glawcoma yn glefyd llygaid cronig, cynyddol a achosir gan niwed i'r nerf optig. Mae'n arwain at golli golwg ymylol, a gall arwain at ddallineb. Mae'n cychwyn yn raddol, ond mae'n gyflwr sy'n gwaethygu. Ni ellir ei wrthdroi ond gellir ei drin â meddyginiaeth, laser neu lawdriniaeth hidlo.

Un o'r prif ffactorau risg yw gorbwysedd ociwlar (pwysedd llygad) lle gall annormaledd yn system ddraenio'r llygad achosi i hylif gronni, gan arwain at ormod o bwysedd sy'n achosi niwed i'r nerf optig. Bydd angen monitro claf sy'n cael diagnosis o orbwysedd ociwlar yn barhaus. Mae ffactorau eraill yn cynnwys oedran, hanes teuluol ac ethnigrwydd. Mae adolygiadau systemig diweddar wedi nodi y gall pwysedd gwaed uchel gynyddu'r risg o glawcoma, ond bod pwysedd gwaed diastolig isel hefyd yn ffactor risg ar gyfer datblygu glawcoma[25] [26]27.

Amcangyfrifir bod 6,700 o bobl â Glawcoma yng Ngwent yn 2022, a rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu i 7,670 yn 2032, sef cynnydd o 13%. Mae hyn yn llai na'r cynnydd o 16% dros Gymru. Mae'r cynnydd lleiaf ym Mlaenau Gwent (10%) a'r mwyaf yn Sir Fynwy (19%). Rhagwelir cynnydd o 14% yn yr ardaloedd eraill.

**Ffigur 2.1.7 - Amcangyfrif o nifer y bobl â glawcoma yn 2022 a 2032 a % y cynnydd**




### 2.1.3.3 Clefydau llygaid diabetig

Gall cleifion â diabetes mellitus ddioddef rhai cyflyrau llygaid oherwydd eu clefyd. Retinopathi diabetig yw'r achos mwyaf cyffredin o golli golwg ymysg cleifion â diabetes.


[25] Nislawti et al (2021)
[26] Eijgen et al (2023)

Achosir retinopathi diabetig gan lefelau uchel o siwgr yn y gwaed sy'n niweidio cefn y llygad (retina). Gall fod yn asymptomatig ar y dechrau, ond mae'n bwysig cael diagnosis cynnar. Dylid sgrinio cleifion yn rheolaidd. Ymhlith y ffactorau risg ar gyfer diabetes mae hanes teuluol, oedran a bod dros bwysau.

Gall cleifion hefyd ddioddef oedema macwlaidd diabetig (hylif yn cronni yn y retina) a chataractau a glawcoma hefyd.

Yng Ngwent amcangyfrifir bod 39,790 o bobl â diabetes a disgwylir i'r nifer godi gan 7% i 42,850 yn 2032. O'r cleifion hynny mae gan 30% (11,820) retinopathi diabetig, a rhagwelir y bydd hyn yn codi gan 4% i 12,300 yn 2032. Mae'r cynnydd hwn yn is na'r cynnydd a ragwelir ar gyfer Cymru.

**Ffigur 2.1.8 - Amcangyfrif o gleifion â Diabetes a Retinopathi Diabetes 2022 – 2032**





Bydd cynnydd yn nifer y cleifion sy'n byw gyda'r clefydau hyn ym mhob awdurdod lleol, gan amrywio o 4-9% (Diabetes) ac 1.7-4% (Retinopathi Diabetes).

Er mwyn sicrhau bod cleifion â diabetes yn cael eu monitro'n rheolaidd, mae rhaglen sgrinio llygaid diabetig wedi'i sefydlu ar gyfer pob claf 12 mlwydd oed neu'n hŷn sydd â diagnosis o ddiabetes math 1 neu fath 2. Bydd monitro'n digwydd bob blwyddyn neu ddwy.

Yn 2019/20 mynychodd 64.1% o gleifion a oedd yn gymwys ac a wahoddwyd i gael eu sgrinio. Roedd hyn yn is nac yn 2018/19 pan fynychodd 69% o gleifion28.

[28] Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

**Ffigur 2.1.9 - % sgrinio iechyd llygaid**




Torfaen oedd yr unig awdurdod lleol a welodd gynnydd yn 2019/20. Gwelodd Casnewydd ostyngiad sylweddol o 14.3%.

### 2.1.3.4 Dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran (AMD)


Mae AMD yn gyflwr sy'n effeithio ar ran ganol eich golwg ac er nad yw'n achosi dallineb llwyr mae'n gwneud tasgau bob dydd yn anodd. Mae dau fath o AMD - AMD sych, lle mae'r cyflwr yn gwaethygu dros nifer o flynyddoedd neu AMD gwlyb, lle mae'r datblygiad yn gyflym, fel arfer dros ychydig wythnosau neu fisoedd. Mae Drusen, dyddodion melyn o dan y retina yn gallu bod yn arwydd cynnar o AMD.

Er nad ydym yn gwybod beth sy'n ei achosi, mae cysylltiad â phwysedd gwaed uchel, ysmygu, gordewdra a hanes teuluol.

AMD yw prif achos dallineb yn y DU.

Disgwylir i bob ardal weld cynnydd yn nifer y cleifion ag AMD sych a gwlyb. Mae gan 1,663 AMD sych ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynyddu i 2,500, â'r gyfradd mewn awdurdodau lleol yn codi rhwng 13 a 26%. Bydd niferoedd y cleifion ag AMD gwlyb yn cynyddu gan 18% (4,300 i 5,220). Bydd Sir Fynwy yn gweld y cynnydd mwyaf a Blaenau Gwent y cynnydd isaf.

**Ffigur 2.1.10 - Amcangyfrif o nifer y bobl ag AMD Sych a Gwlyb 2022 a 2032**




### 2.1.3.5 Cyfeiliornadau plygiant heb eu cywiro

Mae cyfeiliornad plygiant heb ei gywiro yn cyfeirio at gyflwr lle nad yw'r llygad yn gallu ffocysu golau'n iawn, gan arwain at nam ar y golwg neu olwg aneglur. Mae hyn yn digwydd oherwydd afreoleidd-dra yn siâp y llygad, sy'n effeithio ar sut mae golau'n cyrraedd y retina.

Mae'n bwysig bod cyfeiliornadau plygiant yn cael eu cywiro mewn plant oherwydd yr effaith bosibl ar gyrhaeddiad addysgol neu ddatblygiad amblyopia (llygad diog).

Mae modd cywiro cyfeiliornadau plygiant trwy sbectol, lensys cyffwrdd, neu lawdriniaeth blygiannol. Er gwaethaf y triniaethau hyn sydd ar gael, mae cyfeiliornadau plygiant yn dal i gyfrannu at raddau sylweddol o nam ar y golwg, yn y DU, ac yn fyd-eang. Mae llawer o unigolion yn parhau heb gael diagnosis neu'n methu â chael mynediad at fesurau cywiro, yn enwedig mewn ardaloedd sydd ag adnoddau gofal iechyd cyfyngedig.

Mae cysylltiad ag oedran ac mae'n datblygu ar gyfraddau gwahanol wrth i bobl heneiddio. Nid oes modd atal astigmatedd. Gall ddechrau yn ystod plentyndod ac mae'n dueddol o waethygu gydag oedran[29].

Mae myopia yn aml yn dechrau rhwng degawd cyntaf ac ail ddegawd bywyd a gall waethygu fesul tipyn dros gyfnodau o rai misoedd tan ddiwedd yr arddegau.[30] Mae'n gwaethygu gyflymaf yn yr ystod oedran 7-10 mlwydd oed[31] ond gall hefyd ddatblygu yn ystod ail a thrydydd degawd cleifion. Mae ymyrraeth gynnar yn bwysig mewn plant ifanc, yn arbennig y rhai dan 12 oed, er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd plentyn yn datblygu myopia uchel, a all arwain at glawcoma, datgysylltiad y retina neu ddirywiad macwlaidd myopig[32]. Mae

[29] National Eye Institute Astigmatism.
[30] Hou et al (2018)
[31] Tricard et al (2020)
[32] Brennan et al (2021)

cynnydd wedi’i wneud o ran sbectolau a lensys cyffwrdd sy'n caniatáu ‘rheoli myopia’. Gall hyn arafu’r gwaethygiad. Ar adeg cyhoeddi, dim ond yn breifat y mae'r driniaeth hon ar gael, ond gall gael effaith sylweddol ar leihau'r risg o golli golwg na ellir ei wrthdroi.

Er bod llawer o blant yn cael eu geni â hyperopia mae'r cyflwr yn aml yn gwella wrth i'w llygaid dyfu[33]. Gall hyperopia waethygu mewn plant â lefel uchel o hyperopia a phobl sy’n hŷn na 50 mlwydd oed.

Ychydig o ddata cadarn sydd ar gael ar nifer yr achosion o gyfeiliornadau plygiant heb eu cywiro ym mhoblogaeth y DU a Chymru

Mae adolygiad systematig o astudiaethau o dueddiadau a rhagamcanion myopia[34] yn dangos ystod o niferoedd rhwng 24.32 a 35.81%. Rhagamcangyfrifir y bydd nifer yr achosion o fyopia yn 36.59% erbyn 2040, a 39.80% yn 2050. Bydd y gyfran uchaf o fyopia mewn menywod, pobl ifanc a phobl mewn ardaloedd trefol.

Ar y cyfan, nid yw'r astudiaethau a gynhaliwyd yn seiliedig ar boblogaeth y DU. O ganlyniad, rhaid bod yn ofalus wrth ystyried y niferoedd oherwydd y gwahaniaethau yn y poblogaethau a astudiwyd.

Nododd papur gan Hashemi[35] yn 2017 mai nifer yr achosion o gyfeiliornadau plygiant ymhlith y rhai dan 20 oed yw:

- Myopia (byr eu golwg) – 14.3%
- Hyperopia (hir eu golwg) – 9%
- Astigmatedd (cornbilen neu lens â siâp afreolaidd)– 12.9%
- Gan roi nifer yr achosion yn 36.2%.

Yn seiliedig ar y boblogaeth 0-14 mlwydd oed yn 2023, nifer yr achosion o gyfeiliornadau plygiant yw:

**Tabl 2.1.10 – Nifer yr achosion o gyfeiliornadau plygiant ymhlith plant 0-14 mlwydd oed**

| | Poblogaeth | Nifer yr achosion | Myopia | Hyperopia | Astigmatedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | 0-14 | 36.2% | 14.3% | 9% | 12.9% |
| Gwent | 111,993 | 40,541 | 16,015 | 10,079 | 14,447 |
| Blaenau Gwent | 12,158 | 4,401 | 1,739 | 1,094 | 1,568 |
| Caerffili | 33,554 | 12,147 | 4,798 | 3,020 | 4,328 |
| Sir Fynwy | 15,358 | 5,560 | 2,196 | 1,382 | 1,981 |
| Casnewydd | 33,451 | 12,109 | 4,783 | 3,011 | 4,315 |
| Torfaen | 17,472 | 6,325 | 2,499 | 1,572 | 2,254 |

33 Majmunder S a Tripathy K (2023)
34 Liang et al (2023)
35 Hashemi et al (2017)

Mae astudiaethau mewn oedolion yn dangos y bydd gan tua 57%[36] o'r rhai sy'n hŷn na 40 mlwydd oed ryw fath o gyfeiliornadau plygiant. Yn gyffredinol nifer yr achosion37 mewn oedolion yw[37]:

- Myopia 25.3%
- Hyperopia 33.8%
- Astigmatedd 59.7%

O edrych ar y boblogaeth 45+ mlwydd oed, bydd gan fwy na 158,000 o oedolion rhyw fath o gyfeiliornad plygiant, er nid yw hyn yn dangos cyfradd y cyfeiliornadau plygiant heb eu cywiro.

**Tabl 2.1.11 – Nifer yr achosion o gyfeiliornadau plygiant ymhlith pobl 45+ mlwydd oed**

| | Poblogaeth | Nifer yr achosion | Myopia | Hyperopia | Astigmatedd |
|---|---|---|---|---|---|
| | 45+ | 57% | 25.3% | 33.8% | 59.7% |
| Gwent | 278,643 | 158,827 | 70,497 | 94,181 | 166,350 |
| Blaenau Gwent | 32,136 | 18,318 | 8,130 | 10,862 | 19,185 |
| Caerffili | 82,968 | 47,292 | 20,991 | 28,043 | 49,532 |
| Sir Fynwy | 52,083 | 29,687 | 13,177 | 17,604 | 31,094 |
| Casnewydd | 67,779 | 38,634 | 17,148 | 22,909 | 40,464 |
| Torfaen | 43,677 | 24,896 | 11,050 | 14,763 | 26,075 |

### 2.1.3.6 Nam ar y golwg a nam difrifol ar y golwg

Y ffynhonnell orau o gyffredinrwydd nam ar y golwg a nam difrifol ar y golwg yw trwy Ardystiadau Nam ar y Golwg Cymru (CVI), gellir darparu'r rhain naill ai gan Offthalmolegydd Ymgynghorol neu optometrydd sydd wedi'i achredu.

Mae cyhoeddi tystysgrif yn wirfoddol ac ni fydd gan bob claf sy'n cael ei ystyried yn rhannol ddall neu'n ddall CVI.


Lle cofnodwyd achosion yn 2022-23, roedd 129 oherwydd dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oedran, 34 oherwydd Glawcoma a 5 oherwydd clefyd llygaid yn gysylltiedig â diabetes[38].

[36] Pateras E (2012)
[37] Ferraz et al (2014)
[38] Gwasanaeth golwg gwan StatsCymru

Mae data hefyd yn cael ei gasglu o'r gwasanaeth golwg gwan ac mae'r data a gasglwyd yn dangos mai Cataractau yw'r diagnosis mwyaf cyffredin, ac yna AMD Sych ac  AMD Gwlyb. Dylid nodi y gall claf gael mwy nag un diagnosis a bod y ddau yn cael eu cofnodi, felly gall y niferoedd cyffredinol fesul diagnosis fod yn is na'r hyn a adroddir isod.

Rydym yn gweld y gostyngiad disgwyliedig yn ystod Covid gyda'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn cynyddu, roedd gostyngiad ar draws pob maes yn 2023/24.


**Ffigur 2.1.11 - Cyfradd y bobl sy'n byw gyda cholli golwg fesul 1,000**




Yn 2022, amcangyfrifwyd bod nifer y cleifion a oedd yn byw gyda rhyw fath o golled golwg yng Ngwent yn 20,480 gyda rhagfynegiad y bydd hyn yn cynyddu i 24,080 yn 2032 (cynnydd o 14.95%).  Mae'r ystod hon o gynnydd ar gyfer yr awdurdod lleol yn amrywio o 11.11% i 18.52%.

Y gyfradd genedlaethol ar gyfer y rhai sy'n byw gyda cholli golwg fesul 1,000 yw 36. Mae pob awdurdod lleol heblaw Sir Fynwy islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Ffigur 2.1.12 - Cyfradd y bobl sy'n byw gyda cholli golwg fesul 1,000 (2022)**




Wrth edrych ar gyfradd y rhai sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall fesul 100,000, mae Blaenau Gwent yn sylweddol is na'r ffigur cenedlaethol o 417 (ar 186) gyda Sir Fynwy yn uwch na hynny ar 574.

Yn 2023/24 roedd 3,719 o gyfeiriadau newydd ar gyfer y gwasanaeth golwg gwan a daeth 72.8% ohonynt gan Optometryddion[39].

#### 2.1.3.7 Crynodeb

Disgwylir i bob cyflwr clinigol weld cynnydd yng nghanran yr achosion yn yr 20 mlynedd nesaf. Caiff y cyflyrau hyn eu rheoli'n rhannol gan wasanaethau gofal cymunedol a gofal eilaidd. Bydd angen gwaith meddwl i sicrhau bod digon o gapasiti yn y system, gweithlu a bod gwasanaethau cadarn ar waith i reoli'r cynnydd hwn a lleihau'r effaith ar gleifion.

Gall y gwaith cynllunio gynnwys llwybrau clinigol lle mae cleifion yn cael eu gweld a'u rheoli'n briodol yn y gymuned, gan ryddhau adnoddau mewn gofal eilaidd i gleifion lle bo angen y cymorth arbenigol. Mae hyn yn cynnwys comisiynu mwy o gontractwyr i ddarparu gwasanaethau WGOS 3, 4 a 5.

### 2.1.4 Ffactorau Risg

Wrth edrych ar ffactorau risg ar gyfer colli golwg, mae rhai sy'n ffactorau risg anaddasadwy ac addasadwy. Caiff nifer yr achosion o bob cyflwr iechyd llygaid yn y bennod hon eu cyfrifo gan ddefnyddio offeryn Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) (2021) [40]sy'n defnyddio'r model cyffredinrwydd a gymerwyd o'r Model Epidemiolegol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Llygaid (NEHEM)[41]. Yna caiff y cyfraddau cyffredinrwydd sylfaenol eu cymhwyso i'r amcangyfrifon a'r rhagamcanion diweddaraf sydd ar gael gan yr asiantaeth ystadegau gwladol perthnasol.


---

[39] Gwasanaeth golwg gwan StatsCymru
[40] Offeryn data colli golwg RNIB
[41] NEHEM

### 2.1.4.1 Ffactorau risg anaddasadwy

Mae *oedran* yn ffactor arwyddocaol gyda 79% o'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan golli golwg dros 65 oed ac mae 32% o'r rhai dros 85 oed yn cael eu heffeithio. Mae amcangyfrifon ar gyfer 2023 yn dangos bod 107,699 (18%) o'r bobl yng Ngwent dros 65 oed,  sy'n golygu bod tua 85,000 o gleifion yn cael eu heffeithio gan ryw fath o broblemau iechyd llygaid.

**Ffigur 2.1.13 - Poblogaeth yn ôl band oedran (canol 2023)**





*Rhywedd* - Yn gyffredinol, mae menywod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan golli golwg (61%) na dynion (39%)[42], gyda mwy yn dioddef â chataractau[43] er bod retinopathi diabetig yn fwy cyffredin mewn dynion.  Yng Ngwent mae 303,328 o'r boblogaeth yn fenywod a 292,084 yn wrywod.

*Ethnigrwydd* - Mae poblogaethau De-ddwyrain Asia yn fwy tebygol o ddioddef o ddiabetes ac o fynd ymlaen i ddatblygu clefydau llygaid diabetig o'i gymharu â'r rhai sy'n byw gyda diabetes o grwpiau ethnig eraill[44]. Mae'r rhai o boblogaethau Affricanaidd ac Affricanaidd-Caribïaidd mewn mwy o berygl o ddatblygu glawcoma. Mae 3.7% o boblogaeth Gwent yn perthyn i'r ddau grŵp ethnig hyn.

*Anableddau dysgu* - Amcangyfrifir bod 5.6% o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn ddall neu'n rhannol ddall. Mae hyn yn cyfateb i un o bob 18 plentyn. I oedolion, mae'r achosion amcangyfrifedig yn cynyddu i 9.3%, sy'n golygu eu bod 10 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddall neu'n rhannol ddall na'r boblogaeth gyffredinol[45]. Mae'n annhebygol y bydd oedolion ag anableddau dysgu yn ceisio triniaeth yn amlach nac yn fwy prydlon[46].

[42] Offeryn data colli golwg RNIB
[43] Ang ac Afshari (2021)
[44] Holman et al (2011)
[45] Anableddau dysgu RNIB
[46] McCulloch et al (1996)

**Ffigur 2.1.14 – Amcangyfrif o nifer yr oedolion ag anableddau dysgu a cholled golwg**





### 2.1.4.2 Ffactorau addasadwy a chydafiechedddau

*Ysmygu* - Mae'r cysylltiad rhwng ysmygu a datblygiad AMD yr un mor gryf â'r cysylltiad rhwng ysmygu a chanser yr ysgyfaint47. Mae'r rhai sy'n ysmygu yn dyblu eu risg o ddatblygu AMD yn gynharach na'r rhai nad ydynt yn ysmygu. Gall ysmygu hefyd effeithio ar ddifrifoldeb cyflyrau iechyd llygaid sy'n gysylltiedig â diabetes yn ogystal â datblygiad cataractau48. Mae nifer yr ysmygwyr presennol wedi gostwng yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf49.

Mae cyfraddau ysmygu yn uwch yn yr ardaloedd lle mae'r amddifadedd mwyaf.

**Ffigwr 2.1.15 – Canran o ysmygwyr cyfredol**

[47] Thornton et al (2005)
[48] Solberg, Rosner a Belkin (1998)
[49] ons.gov.uk/smoking




*Gordewdra* – mae cysylltiad cryf â datblygu a rheoli diabetes gan gynnwys dirywiad retinopathi diabetig[50]. Mae cysylltiad hefyd â datblygiad AMD a chataractau[51]. Mae nifer yr achosion yn yr awdurdodau lleol o'r rhai sydd dros bwysau neu'n ordew, ac eithrio Sir Fynwy, yn uwch na chyfartaledd Cymru (60%).

**Tabl 2.1.11 – Canran y boblogaeth sydd dros bwysau neu'n ordew**

| | % dros bwysau neu'n ordew |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 70 |
| Caerffili | 67 |
| Sir Fynwy | 56 |
| Casnewydd | 67 |
| Torfaen | 65 |

Mae 42,278 o gleifion â diagnosis cofnodedig o ddiabetes math 2 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae 1,368 yn ychwaneg gyda HBA1c ar lefel ddiagnostig, ond heb ddiagnosis wedi'i gofnodi, a 18,123 yn yr ystod cyn-diabetes (QAIF 2021-2022)

[50] Heidari (2015)
[51] Ymwybyddiaeth o AMD a ffactorau risg cysylltiedig

*Gorbwysedd* – dyma achos sylweddol dros golli golwg. Mae'n effeithio ar ddatblygiad retinopathi diabetig. Mae pwysedd gwaed uchel hefyd yn cynyddu'r risg o strôc, rhwystro gwythiennau a rhydwelïau, a gall hyn achosi colli golwg yn sydyn mewn un llygad[52]. I'r cleifion hynny sy'n goroesi strôc, bydd gan 60% ohonynt ambell broblem iechyd llygaid.[53] Mae oedran, ethnigrwydd, hanes teuluol, bod dros bwysau neu'n ordew, diffyg gweithgarwch corfforol, defnyddio tybaco a chymeriant halen uchel yn ffactorau risg ar gyfer gorbwysedd.

Amcangyfrifir bod ychydig dros 100,819 o oedolion yng Ngwent ar gofrestr gorbwysedd eu meddyg teulu a bod cymaint â 40,000 heb gael diagnosis o bosibl.

**Tabl 2.1.12 – Amcangyfrif o nifer y bobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor oherwydd strôc**

| | Amcangyfrif o nifer y bobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor oherwydd strôc (2022)[54] |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 370 |
| Caerffili | 960 |
| Sir Fynwy | 660 |
| Casnewydd | 720 |
| Torfaen | 520 |

*Ffactorau economaidd-gymdeithasol* - dangoswyd cysylltiad rhwng pobl ar incwm isel ac yn byw mewn amddifadedd o ran iechyd llygaid, gyda thri o bob pedwar o bobl ddall neu â golwg rhannol yn byw mewn tlodi neu ar yr ymylon [55]. Mae tystiolaeth yn dangos cynnydd yng nghyfraddau cataractau[56]. Mae cysylltiadau hefyd rhwng amddifadedd a diagnosis glawcoma, gan gynnwys y cyflwyniad hwyr, ffyrnigrwydd y clefyd a'r canlyniad o ddallineb[57].

*Dementia* - Amcangyfrifir bod 3,540 o bobl yn byw gyda dementia a cholled golwg sylweddol yng Ngwent[58] (35% o'r holl gleifion â dementia), a dim ond cynyddu bydd hyn gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Rhagamcanir y bydd cynnydd o 16.7% yn y boblogaeth dros 65 oed erbyn 2034 yng Ngwent. Gall colli golwg waethygu symptomau dementia yn ogystal ag effeithio ar ansawdd bywyd a gall achosi cynnydd yn anghenion gofal y grŵp hwn. Gall

52 Do et al (2015)
53 Rowe et al (2013)
54 Offeryn data colli golwg RNIB
55 RNIB.org.uk/report
56 Ang ac Asfhari (2021)
57 Fraser et al (2001)
58 Offeryn data colli golwg RNIB

cleifion â dementia fod yn llai tebygol o gael gofal llygaid sy'n golygu eu bod yn llai tebygol o gael profion golwg ac archwilio'r symptomau.

*Cwympiadau* - Mae cysylltiad agos rhwng cwympiadau a cholli golwg. Yn 2022, roedd 3.7% o'r cwympiadau a oedd angen triniaeth ysbyty wedi digwydd oherwydd bod y claf wedi colli golwg ac amcangyfrifir bod hyn yn costio 10% o gyfanswm costau triniaeth ar gyfer cwympiadau damweiniol[59].

#### 2.1.4.3 Crynodeb

Er bod nifer o ffactorau anaddasadwy yn gysylltiedig â cholli golwg, mae angen cefnogaeth i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar waith i helpu i reoli cyflyrau gofal llygaid i leihau effaith colli golwg. Yn achos ffactorau addasadwy, mae'n bwysig bod gwasanaethau iechyd llygaid yn rhan o system iechyd ehangach a'u bod wedi'u cynnwys wrth ddylunio a chynllunio llwybrau gofal, gan gynnwys mesurau ataliol fel mynd i'r afael ag ymddygiadau ffordd o fyw nad ydynt yn iach yn hytrach na'u rheoli ar wahân yn unig.

### 2.1.5 Contractwyr a gweithgarwch

#### 2.1.5.1 Darpariaeth Gwasanaethau

Mae'r bennod ganlynol yn darparu gwybodaeth am yr hyn a ddarperir yng Ngwent yn gyffredinol ac yna ar lefel Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth . Mae data'n cynnwys nifer y contractwyr, yr ystod a'r ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael a chyfanswm yr oriau y mae gwasanaethau ar gael yn ystod yr wythnos ar draws yr holl gontractwyr.

Gan gydnabod bod gan gleifion ddewis o ble maen nhw'n derbyn eu gofal o dan WGOS 1 a 2, darperir gweithgarwch ar gyfer pob Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth hefyd er nad ydym yn gallu dangos a yw'r claf yn mynychu contractwr yn yr un Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ag y mae'n byw ynddo.

#### 2.1.5.2 Contractwyr

Mae gan Gwent 60 o gontractwyr gwasanaethau iechyd llygaid ar draws eu 11 Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth. O'r rhain, mae 54 yn darparu gwasanaethau o safle cofrestredig, mae pump yn gontractwyr cartref yn unig ac mae un yn gontractwr gwasanaeth golwg gwan yn y cartref.

**Tabl 2.1.13 – Nifer y contractwyr**


| Awdurdod lleol | Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth | Poblogaeth | Practisau |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | Dwyrain Blaenau Gwent | 67,356 | 2 |
| | Gorllewin Blaenau Gwent | | 4 |
| | | | **6** |
| Caerffili | Dwyrain Caerffili | 176,437 | 9 |


[59] Cwympiadau RNIB

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gogledd Caerffili | | 3 |
| | De Caerffili | | 5 |
| | | | **17** |
| Sir Fynwy | Gogledd Trefynwy | 94,572 | 8 |
| | De Trefynwy | | 3 |
| | | | **11** |
| Dinas Casnewydd | Dwyrain Casnewydd | 163,628 | 4 |
| | Gorllewin Casnewydd | | 8 |
| | | | **12** |
| Torfaen | Gogledd Torfaen | 93,419 | 3 |
| | De Torfaen | | 4 |
| | | | **7** |
| Contractwyr Gofal yn y Cartref | Contractwyr Gofal yn y Cartref yn unig | | 5 |
| | Contractwyr sydd â safle sefydlog a chytundeb gwasanaethau yn y cartref. | | 6 |
| | Gwasanaeth golwg gwan yn y cartref | | 1 |
| | | | **12** |


Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, terfynwyd 8 contract gan y contractwr ac unodd dau gontractwr eu dau gontract ac adleoli. Mae un contract newydd wedi'i sefydlu. Roedd pump o'r contractwyr yn darparu gwasanaeth golwg gwan.


**Map 2.1.9 - pob contractwr (ac eithrio contractwyr cartref yn unig) yn erbyn dwysedd poblogaeth**




**Map 2.1.10 pob contractwr (ac eithrio contractwyr cartref yn unig) yn erbyn amddifadedd**






Mae WGOS 3-5 yn seiliedig ar gyfeiriadau, gallai hyn fod gan glinigwr arall neu drwy hunangyfeirio. Efallai na fydd gan Rwydwaith Gofal Cymdogaeth gontractwr ar gyfer un neu fwy o'r gwasanaethau hyn.  Mae dadansoddiad o'r ffigurau hyn wedi'i gynnwys ym mhob un o adrannau'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.

Ar draws Gwent mae 35 o gontractwyr gwasanaethau WGOS3, 11 o gontractwyr WGOS4 - Glawcoma (a elwid gynt yn Ganolfan Ddiagnostig a Thriniaeth Offthalmig (ODTC)), 25 sy'n darparu Retina Meddygol WGOS4.  Mae 2 gontractwr yn ymwneud ag WGOS4 HCQ a 22 sy'n darparu gwasanaethau WGOS5.  Mae gan Gwent 1 contractwr ar gyfer y cynllun mireinio cyfeirio AMD Gwlyb sydd wedi'i leoli yng Nghasnewydd, ac fel rhan o'r newidiadau i'r gwasanaethau o dan y rheoliadau newydd, ni fydd y gwasanaeth hwn yn parhau.

#### 2.1.5.3 Gweithgarwch

Yn 2023/24, cynhaliwyd dros 162,000 o brofion golwg i'r unigolion cymwys yng Ngwent, ac o'r rhain darparwyd ychydig o dan 5,800 (3.54% o'r holl brofion golwg) fel prawf golwg yn y cartref. Mae hyn yn cyfateb i 27.37% o boblogaeth Gwent yn cael prawf golwg. Mae hyn ychydig yn is na'r sefyllfa gyffredinol ar gyfer Cymru sef 29.29%.

Nid yw'n hysbys faint o'r boblogaeth sy'n gymwys i gael prawf golwg ond a ddewisodd naill ai peidio â chael prawf golwg neu a aeth am brawf golwg preifat.

Mae gweithgarwch wedi gwella'n dda ers 2020/21 lle cafodd y gwasanaeth ei effeithio oherwydd Covid-19 a chafodd mwy o gleifion brawf golwg naill ai mewn safle cofrestredig (cynnydd o 3.34%) neu yn y cartref (cynnydd o 9.54%) yn 2023/24 nag a wnaethant yn 2019/20[60].  Mae hyn yn erbyn cynnydd poblogaeth o 1.87% rhwng 2019 a 2023.

**Tabl 2.1.14 Profion golwg, safleoedd sefydlog a gofal yn y cartref**

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Profion golwg mewn safle cofrestredig | 152,026 | 67,561 | 146,693 | 150,067 | 156,907 |

[60] Profion Golwg StatsCymru

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Profion Golwg yn y Cartref | 5,215 | 1,579 | 4,070 | 4,252 | 5,765 |
| Cyfanswm | **157,241** | **69,140** | **150,763** | **154,319** | **162,672** |


Y dyb yw bod cleifion yn cael profion golwg yn yr un awdurdod lleol lle maent yn byw, felly dyma ganran y boblogaeth a gafodd brawf golwg yn ôl awdurdod lleol:

**Tabl 2.1.15 % o'r boblogaeth sy'n cael profion golwg y GIG**

| | **Poblogaeth** | **% a gafodd brawf golwg y GIG** |
|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 67,356 | 21.5 |
| **Caerffili** | 176,437 | 27.1 |
| **Sir Fynwy** | 94,572 | 27.5 |
| **Casnewydd** | 163,628 | 23.9 |
| **Torfaen** | 93,419 | 28.5 |


WGOS 1


**Ffigur 2.1.16 – Cyfanswm y profion golwg 2019/20 – 2023/24**




**Ffigur 2.1.17 – Profion golwg o safleoedd cofrestredig 2019/20 – 2023/24**

**Ffigur 2.1.18 – Profion golwg yn y cartref 2019/20 – 2023/24**




*Profion golwg a ddarparwyd drwy grwpiau cymhwysedd*

Mae'r newid mewn hawliadau yn ôl cymhwysedd yn dangos cynnydd bach yng nghanran y rhai dan 18 oed a gostyngiad bach yng nghanran y rhai dros 60 oed. Gwelir newidiadau canrannol mwy mewn grwpiau eraill, yn enwedig y rhai sy'n gymwys oherwydd rhesymau yn ymwneud â chymorth ariannol, sydd wedi gweld gostyngiad cyffredinol o 51.12%.

**Tabl 2.1.16 – Profion golwg yn ôl cymhwysedd**


| | 2019/20 | 2023/24 | % newid |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cleifion cymwys | 157,241 | 162,672 | 3.34 |
| Unigolion 60 oed a hŷn | 82,722 | 82,261 | -0.56 |
| Plant 15 oed neu iau | 37,960 | 39,005 | 2.68 |
| Myfyrwyr 16 - 18 oed | 4,551 | 4,601 | 1.09 |
| Oedolion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm | 8,602 | 3,400 | -153 |
| Oedolion sy'n derbyn Credyd Treth | 6,302 | 4,501 | -40.01 |
| Oedolion sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith | 1,900 | 3,000 | 36.67 |
| Oedolion sydd â thystysgrif incwm isel | 350 | 450 | 22.22 |
| Wedi cofrestru'n ddall/rhannol ddall* | 250 | 100 | -150 |
| Dioddefwyr diabetig/glawcoma | 4,751 | 4,751 | 0.00 |
| Pobl sydd angen lensys cymhleth | 300 | 550 | 45.45 |
| Perthnasau agos (sy'n 40 oed a hŷn) i ddioddefwyr glawcoma | 6,252 | 7,301 | 14.37 |

| | 2019/20 | 2023/24 | % newid |
|---|---|---|---|
| Oedolion sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm | 8,602 | 3,400 | -153 |
| Oedolion sy'n derbyn Credyd Treth | 6,302 | 4,501 | -40 |
| Oedolion sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith | 1,900 | 3,000 | 36.67 |
| Oedolion sydd â thystysgrif incwm isel | 350 | 450 | 22.22 |
| Cyfanswm | 17,154 | 11,351 | -51.12 |

### WGOS 2 – Bandiau 1, 2 a 3

Mae darpariaeth WGOS 2 (bandiau EHEW 1-3 gynt) wedi gweld cynnydd sylweddol yn ystod y tair blynedd flaenorol ar draws pob band, lle mae'r newid canrannol ar gyfer pob band yn 28%, 28.7% a 26.7% yn y drefn honno.

**Ffigur 2.1.19 – gweithgarwch WGOS2**




### WGOS3

Defnyddiodd 1,466 o gleifion y gwasanaeth golwg gwan yn 2023/24, a welodd ostyngiad bach o'i gymharu â'r rhai a ddefnyddiodd yn 2022/23 (1,572) ond roedd yn debyg i niferoedd 2021/22 (1,456).

### WGOS4

Lansiwyd gwasanaeth Hidlo Cyfeiriadau WGOS4 yng Ngwent ym mis Tachwedd 2024. Mae 493 o hawliadau wedi eu gwneud hyd yn hyn.  Mae'r data a adroddir ar gyfer Glawcoma isod yn seiliedig ar wasanaeth ODTC Glawcoma.

**Tabl 2.1.17 – ODTC Glawcoma**

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 603 | 559 | 517 |
| Caerffili | 793 | 1,322 | 1,905 |
| Sir Fynwy | 591 | 606 | 627 |
| Casnewydd | 1,281 | 1,181 | 1,083 |
| Torfaen | 377 | 756 | 1,255 |
| Cyfanswm | **3,645** | **4,424** | **5,387** |

**Tabl 2.1.18 hawliadau WGOS 4**

| Cyfanswm Hawliadau WGOS 4 - Rhagfyr 2024 - Chwefror 2025 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Clwstwr | Monitro Retina Meddygol | Hidlo Retina Meddygol | Monitro Hawliadau Glawcoma | Hidlo Hawliadau Glawcoma | Cyfanswm yr Hawliadau |
| Blaenau Gwent | 0 | 14 | 0 | 6 | 20 |
| Caerffili | 2 | 83 | 0 | 64 | 149 |
| Sir Fynwy | 0 | 42 | 0 | 27 | 69 |
| Casnewydd | 1 | 86 | 0 | 143 | 230 |
| Torfaen | 0 | 13 | 0 | 12 | 25 |

Mae Torfaen a Chaerffili wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cleifion a welwyd yng ngwasanaeth ODTC yn ystod y tair blynedd diwethaf, tra bod Blaenau Gwent a Chasnewydd wedi gweld gostyngiadau bach.

#### WGOS5

Cyflwynwyd darpariaeth gofal y gellir ei darparu gan bresgripsiynwr annibynnol (IPOS) yn 2023 ac ar gyfer y flwyddyn 2023/24 gwnaed cyfanswm o 988 o hawliadau IPOS. Hyd at fis Chwefror 2025, gwnaed cyfanswm o 5390 hawliad yn 2024/25.

## 2.1.6 Darpariaeth Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth

Mae'r data a ddefnyddir yn yr adran hon yn seiliedig ar ddata a adroddwyd yn lleol ac felly mae anghysondebau bach yn y cyfansymiau a adroddwyd ar StatsCymru.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch ble mae cleifion yn byw o'i gymharu â pha safle y gwnaethant ei fynychu ar gyfer prawf golwg neu ofal iechyd llygaid arall.


### 2.1.6.1 Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Dwyrain Blaenau Gwent


Mae dau gontractwr gwasanaethau WGOS yn gweithio ar safle cofrestredig yn Nwyrain Blaenau Gwent gydag un contractwr hefyd yn darparu gwasanaethau yn y cartref. Mae'r ddau gontractwr wedi'u lleoli yn y prif drefi sef Abertyleri a Brynmawr. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae gan Abertyleri boblogaeth o 10,252 a 5,250 ym Mrynmawr. Mae'r ddwy dref o fewn y 20-30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Cydnabyddir serch hynny y bydd rhai cleifion yn byw yn ardal yr awdurdod lleol ond nid yn y trefi na'r dinasoedd.

Terfynwyd un contract gan y contractwr yn Nwyrain Blaenau Gwent ym mis Rhagfyr 2023.

**Map 2.1.11 - Contractwyr Dwyrain Blaenau Gwent fesul ardal wledig**

**Map 2.1.12 - Contractwyr Dwyrain Blaenau Gwent yn ôl amddifadedd**




**Tabl 2.1.19 – Contractwyr Dwyrain Blaenau Gwent a nifer yr hawliadau**

| Gwasanaeth | Nifer y Practisau | Nifer yr hawliadau 2023/24 |
|---|---|---|
| WGOS 1 | 2 | 4684 |
| WGOS 2<br>Band 1<br>Band 2<br>Band 3 | 2 | <br>2,121<br>425<br>397 |
| WGOS 3 | 2 | 79 |

| | | |
|---|---|---|
| WGOS 4 – Glawcoma (ODTC cynt) | 0 | 0 |
| WGOS 4 – Retina Meddygol | 2 | |
| WGOS 4 – HCQ | 2 | |
| WGOS 5 | 2 | 114 |
| Cartref | 1 | 41 |

Noder y gallai nifer y profion golwg yn y cartref fod wedi'u darparu gan unrhyw un o'r 13 contractwr cartref yng Ngwent.

**Tabl 2.1.20 – Hawliadau profion golwg Dwyrain Blaenau Gwent**

| | **Profion Golwg** | **Profion Golwg yn y Cartref** |
|---|---|---|
| 2021/22 | 5,557 | 67 |
| 2022/23 | 3,206 | 83 |
| 2023/24 | 4,684 | 41 |

Gwelodd Dwyrain Blaenau Gwent gynnydd o 32% (1,478) yn nifer y profion golwg a gynhaliwyd o 2022/23 (safleoedd cofrestredig) a gostyngiad o 50% yn nifer y profion golwg yn y cartref.

Mae gwasanaethau gofal iechyd llygaid sylfaenol ar gael:

**Tabl 2.1.21 – Oriau gwasanaethau Dwyrain Blaenau Gwent**

| | **Oriau sydd ar gael** |
|---|---|
| Dydd Llun | 15 |
| Dydd Mawrth | 15 |
| Dydd Mercher | 15 |
| Dydd Iau | 15 |
| Dydd Gwener | 15 |
| Dydd Sadwrn | 7 |
| Dydd Sul | 0 |
| Cyfanswm | **92** |

Yr amser dechrau cynharaf yn ystod yr wythnos yw 09.00 a'r amser gorffen hwyraf yw 17.30. Ar ddydd Sadwrn, 09.00 ac 12.30 yw'r oriau hynny.  Nid oes gwasanaeth ar gael ar ddydd Sul.


### 2.6.2 Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Gorllewin Blaenau Gwent

Mae pedwar contractwr gwasanaethau WGOS yn gweithio o safleoedd cofrestredig yng Ngorllewin Blaenau Gwent, gydag un contractwr hefyd yn darparu gwasanaethau cartref. Mae'r practisau wedi'u lleoli yn nhrefi Glynebwy a Thredegar.  Mae gan Lynebwy boblogaeth o 19,633 ac mae rhwng y 20-30% mwyaf difreintiedig tra bod Tredegar yn y 10-20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae yno boblogaeth o 14,529. Cydnabyddir serch hynny y bydd rhai cleifion yn byw yn ardal yr awdurdod lleol ond nid yn y trefi na'r dinasoedd.

**Map 2.1.13 - Contractwyr Gorllewin Blaenau Gwent fesul ardal wledig**

**Map 2.1.14 - Contractwyr Gorllewin Blaenau Gwent contractwyr yn ôl amddifadedd**




**Tabl 2.1.22 – Contractwyr Gorllewin Blaenau Gwent a nifer yr hawliadau**

| Gwasanaeth | Nifer y contractwyr | Nifer yr hawliadau 2023/24 |
|---|---|---|
| WGOS 1 | 4 | 9,790 |
| WGOS 2<br>Band 1<br>Band 2<br>Band 3 | 4 | <br>1,558<br>665<br>388 |
| WGOS 3 | 3 | 85 |

| | | |
|---|---|---|
| WGOS 4 – Glawcoma (ODTC cynt) | 1 | 517 |
| WGOS 4 – Retina Meddygol | 1 | |
| WGOS 4 – HCQ | 0 | |
| WGOS 5 | 2 | 258 |
| Cartref | 1 | 48 |

**Tabl 2.1.23 – Hawliadau profion golwg Gorllewin Blaenau Gwent**

| | Profion Golwg | Profion Golwg yn y Cartref |
|---|---|---|
| 2021/22 | 8,866 | 29 |
| 2022/23 | 8,452 | 18 |
| 2023/24 | 9,790 | 48 |

Gwelodd Gorllewin Blaenau Gwent gynnydd o 14% (1338) yn nifer y profion golwg a gynhaliwyd o 2022/23 (ar safleoedd cofrestredig) a chynnydd o 62% yn nifer y profion golwg yn y cartref (+30).

Mae gwasanaethau gofal iechyd llygaid sylfaenol ar gael:

**Tabl 2.1.24 – Oriau gwasanaethau Gorllewin Blaenau Gwent**

| | Oriau sydd ar gael |
|---|---|
| Dydd Llun | 22 |
| Dydd Mawrth | 24 |
| Dydd Mercher | 24 |
| Dydd Iau | 29 |
| Dydd Gwener | 22 |
| Dydd Sadwrn | 18 |
| Dydd Sul | 0 |
| Cyfanswm | **139** |

Yr amser dechrau cynharaf yn ystod yr wythnos yw 09.00 a'r amser gorffen hwyraf yw 18.00. Ar ddydd Sadwrn, 09.00 a 16.30 yw'r oriau hynny. Nid oes gwasanaeth ar gael ar ddydd Sul.

### 2.6.3 Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Dwyrain Caerffili


Mae naw contractwr gwasanaethau WGOS yn gweithio o safleoedd cofrestredig yn Nwyrain Caerffili a does dim contractwyr cartref wedi'u lleoli yn Nwyrain Caerffili.  Mae'r practisau wedi'u lleoli yn nhrefi'r Coed-duon (poblogaeth o 12,615), Trecelyn (7,586) a Rhisga (15,197). Mae'r trefi yn y 30-50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cydnabyddir serch hynny y bydd rhai cleifion yn byw yn ardal yr awdurdod lleol ond nid yn y trefi na'r dinasoedd.

Terfynwyd un contract yn Nwyrain Caerffili gan y contractwr ym mis Ebrill 2022.

**Map 2.1.15 - Contractwyr Dwyrain Caerffili yn ôl ardal wledig**

**Map 2.1.16 - Contractwyr Dwyrain Caerffili yn ôl amddifadedd**




**Tabl 2.1.25 – Contractwyr Dwyrain Caerffili a nifer yr hawliadau**

| Gwasanaeth | Nifer y contractwyr | Nifer yr hawliadau 2023/24 |
|---|---|---|
| WGOS 1 | 9 | 22,865 |
